



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020 – 2021

## **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Gofal Cymdeithasol Cymru a baratowyd yn unol ag Atodlen 2, Rhan 6 paragraff 16 (1-3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ynghyd ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyfrifon hynny ac a gyflwynwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff 16(4)

## Manylion Cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru  
South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: [gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)

[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

Twitter: [@GofCymdeithasol](https://twitter.com/GofCymdeithasol)

© 2021 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a nodir uchod.

## Cynnwys

<b>Adroddiad perfformiad</b> .....	4
<b>Trosolwg</b> .....	4
Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu.....	4
Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru – Pwy ydym ni.....	7
Ein gweledigaeth a’n hamcanion strategol .....	7
Materion allweddol a’r risgiau a wynebwn.....	8
<b>Dadansoddiad o berfformiad</b> .....	9
<b>Adroddiad atebolrwydd</b> .....	19
<b>Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol</b> .....	19
Adroddiad y Cyfarwyddwr.....	19
Datganiad o gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a’r Prif Weithredwr.....	21
Datganiad Llywodraethu.....	22
<b>Adroddiad ar gyflogau a staff</b> .....	37
Adroddiad ar gyflogau .....	37
Adroddiad staff.....	41
<b>Atebolrwydd ac archwilio</b> .....	45
<b>Y Dystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i’r Senedd</b> .....	46
<b>Datganiadau ariannol</b> .....	50
Datganiad o wariant net cynhwysfawr.....	50
Datganiad ar y sefyllfa ariannol.....	51
Datganiad ar lifoedd arian parod.....	52
Datganiad ar newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.....	53
Nodiadau ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.....	54

## Adroddiad perfformiad

### Trosolwg

#### Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a baratowyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ers ei sefydlu yn 2017. Eleni, fel pob blwyddyn flaenorol, gall y sefydliad fod yn falch o fod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn llawn a darparu cymorth ystyrlon i'r sectorau gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Mae hyn, wrth gwrs, wedi'i gyflawni yng nghanol Covid; yr hyn sydd wedi amharu fwyaf ar ein bywydau ers cenhedlaeth. O ran gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar, mae heriau'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn aruthrol. Mae ymateb y rhai ar reng flaen y gwasanaethau wedi bod yn anhygoel, a hoffwn gofnodi fy niolch a'm gwerthfawrogiad iddynt.

Rydw i'n falch iawn hefyd o'r ffordd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi ymateb i'r argyfwng – gan addasu ac ymgysylltu â'r sector gydol y cyfnod. Credaf fod yr adroddiad hwn yn dangos ein bod wedi gweithio fel rhan o ymateb cydlynol gan y sector, gan gryfhau ein partneriaethau ledled Cymru, a defnyddio ein hadnoddau i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau effeithiol gydol y pandemig.

Rydym wedi parhau, er gwaethaf heriau, i sefydlu'r fframwaith i drawsnewid gofal a chymorth yng Nghymru, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Rydym wedi parhau i gydweithio ag eraill hefyd i ddatblygu a chynllunio datblygiad gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn y dyfodol, drwy "Cymru Iachach" a chynllun "10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar" Llywodraeth Cymru, tra hefyd yn adeiladu ar bartneriaethau cenedlaethol ledled Cymru wrth i ni wella o'r pandemig.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn helpu pobl i fyw'r bywyd maen nhw am ei gael, gan gynorthwyo pobl i ddatblygu, parhau'n egniol ac annibynnol, cadw'n ddiogel a chadw mewn cysylltiad â'u cymuned a rhwydweithiau ehangach. Maen nhw'n gwneud hyn ochr yn ochr â theulu, ffrindiau, gwirfoddolwyr a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae gweithwyr y blynyddoedd cynnar yn helpu i roi dechrau gwych mewn bywyd i'n plant ac yn rhoi cymorth gwerthfawr i rieni.

Mae'r argyfwng Covid presennol wedi dangos heb os pa mor werthfawr yw gweithwyr gofal fel gweithwyr allweddol, i'n cymdeithas. Rydym am adeiladu ar y gydnabyddiaeth hon gan arwain ar fuddsoddi yn y gweithlu, er mwyn sicrhau ffordd ymlaen sy'n gynaliadwy. Credwn fod hyn yn hanfodol os ydym am ddiwallu anghenion ein cymunedau lle mae effaith tlodi, iechyd gwael a chymdeithas sy'n heneiddio'n creu mwy o alw am ofal a chymorth o ansawdd da.

Mewn ymateb i'r pandemig, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwnaethom addasu ein Cynllun Busnes er mwyn ystyried sut roeddem yn bwriadu gwneud y canlynol:

- cefnogi'r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar wrth ymateb i Covid
- addasu ein gweithgareddau busnes-fel-arfer i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu (gan gynnwys y ffordd y byddwn yn addasu ein dulliau o gefnogi'r amgylchedd presennol)
- cefnogi adferiad y sectorau o Covid.

Nid yw cyflymder, maint a her y pandemig mewn perthynas â'r sector yn rhywbeth roeddem wedi cael profiad ohono o'r blaen. O'r cychwyn cyntaf, roeddem yn cydnabod yr angen dybryd i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg yn ein dull o gefnogi'r sector a'n staff ein hunain, er mwyn rhoi'r cymorth oedd ei angen ar y sector a'n staff. Gweler isod rai o'r mentrau allweddol rydym wedi'u darparu, fel ymateb i Covid:

### **Cefnogi a chynnal y gweithlu**

- codi proffil y gweithlu
- cefnogi lles y gweithlu
- datblygu rhwydweithiau dysgu digidol a chymorth cyfoedion
- cefnogi a hyrwyddo'r sector fel gyrfa
- datblygu porth swyddi

### **Galluogi addysg barhaus ar gyfer myfyrwyr gofal cymdeithasol**

- gwneud addasiadau dros dro i'n gofynion Rheoliadol
- newid ffocws cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad

### **Rhoi cydnabyddiaeth a chefnogaeth i bawb a oedd yn darparu gofal**

- cynhyrchu cerdyn gweithiwr gofal

### **Darparu gwybodaeth arbenigol ac arferion gorau ar gyfer y sector**

- dysgu o Covid a rhannu ymarfer ar 'Beth wnaeth wahaniaeth?'
- datblygu blaenoriaethau ymchwil Covid
- datblygu siop un stop o ganllawiau ar Covid wedi'u cyflwyno gan arbenigwyr

### **Darparu gweithgareddau rheoleiddio a datblygu parhaus**

- datblygu, addasu a chynnal gweithrediadau busnes yn ystod Covid a chofnodi'r dysgu er mwyn llywio ein gweithrediadau yn y dyfodol.

## Ein dull gweithredu ar gyfer 2021-22

Oherwydd yr hinsawdd sydd ohoni a'r sefyllfa sy'n newid drwy'r amser oherwydd Covid, rydym wedi paratoi rhaglen waith uchelgeisiol ar gyfer cyflawni yn 2021-22. Mae hyn yn seiliedig ar amcanion strategol ein Llythyr Cylch Gwaith a'r cyllid Cymorth Grant a ddaeth i law ar 25 Mawrth 2021 gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bydd ein ffocws ar gyfer cyflawni yn ystod 2021-22 mewn tri maes:

1. Cynnal ac addasu ein gweithgareddau craidd yng ngoleuni Covid
2. Cefnogi adferiad y sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar
3. Cefnogi cynaliadwyedd y sector

Byddwn yn canolbwyntio ar ein huchelgeisiau er mwyn gwneud y canlynol:

- grymuso'r gweithlu er mwyn sicrhau'r gofal gorau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau drwy reolwyr, arweinwyr a pherchnogion
- galluogi arweinwyr strategol sydd â'r dystiolaeth a'r sgiliau i wella gwaith cynllunio, gwaith datblygu gwasanaethau ac ansawdd
- sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith, i fod yn sefydliad sy'n arwain gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon yng Nghymru


I ddarganfod mwy o fanylion ar sut y byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn ewch [i'n gwefan](#) a'n [Cynllun Busnes 2021-22](#).

### Sue Evans

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2021

## Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru – Pwy ydym ni



## Ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol

### Ein gweledigaeth

Rydym am i bob unigolyn sydd angen cymorth fyw'r bywyd sy'n bwysig iddyn nhw

### Ein diben

Meithrin hyder yn y gweithlu ac arwain a chefnogi gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol

## Ein nodau

Mae ein tri nod strategol yn diffinio ein gwaith. Bydd y nodau hyn yn arwain at:

- pobl â hyder yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn cynnwys y gweithlu blynyddoedd cynnar, ac effeithiolrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru
- canlyniadau llesiant gwell i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a gofalwyr
- gweithlu digonol, medrus o safon uchel.

## Materion allweddol a'r risgiau a wynebwn

Mae gwybodaeth am sut rydym yn rheoli risg a'r prif risgiau a wynebwn i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 22.

Ystyriwn mai'r ffactorau canlynol yw'r rhai â'r dylanwad mwyaf dros y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith ac yn gwireddu ein gweledigaeth dros y pum mlynedd nesaf:

- effaith Covid yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar wrth gefnogi pobl a phlant
- parhau i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol ar wasanaethau cyhoeddus, sy'n golygu y bydd yn anodd i Lywodraeth Cymru wireddu ei huchelgais i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyflawni ymrwymïadau Gwaith Teg
- y tirlun polisi uchelgeisiol, a fydd yn ymestyn ein hadnoddau a gallu eu hunain.



## Dadansoddiad o berfformiad

Mae ein Cynllun Busnes blynyddol ar gyfer 2020-21 yn nodi ein hamcanion strategol ynghyd â'r gweithgareddau a mesurau cyflawni lefel uchel. Drwy gydol y flwyddyn, caiff adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Gweithredol a bydd ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt.

Er bod llawer o'n gweithgareddau presennol a'n hymateb i Covid wedi'u darparu'n effeithiol ac yn gyflym yn ystod y flwyddyn, penderfynwyd arafu rhai o'n gweithgareddau a'u dwyn ymlaen i'n darpariaeth busnes ar gyfer 2021-22 er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu llunio ar y cyd â'r sector yn wirioneddol. Roedd hyn er mwyn cydnabod bod y pandemig yn cael effaith sylweddol a pharhaus ar allu'r sector i ymgysylltu i'r graddau sy'n ofynnol.

## Rhoi hyder i'r cyhoedd

### Cofrestru

Mae cofrestru'n rhan o'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi statws gweithwyr. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gennym weithlu digonol sy'n barod i ymateb i heriau newydd, gyda'r sgiliau a'r hyder priodol i ymarfer.

Gyda maint y Gofrestr yn cynyddu, byddwn yn parhau i nodi ffyrdd o ryngweithio'n well â phobl gofrestredig, eu helpu i ddeall y disgwyliadau a'r safonau a bennwyd gan y Cod Ymarfer Proffesiynol drwy gefnogi eu dysgu a'u datblygiad.

**35,802** o bobl ar ein Cofrestr (ym mis Mawrth 2021)

**1,497** o bobl wedi gadael y Gofrestr (yn ystod 2020-21)

Er mwyn lleddfu'r pwysau sydd ar y sector, fe wnaethom nifer o newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio'r gweithlu yng ngoleuni Covid. Dyma rai enghreifftiau:

- **Mae gan Weithwyr Gofal Cymdeithasol hyd at 12 mis o'u dyddiad cychwyn i gofrestru â ni (wedi newid dros dro o 6 mis):** Roedd hyn yn galluogi gweithwyr i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r pandemig, yn hytrach na chofrestru o fewn y cyfnod arferol. Roedd disgwyl i weithwyr gydymffurfio â'r cod ymarfer proffesiynol o hyd.
- **Cofrestr Dros Dro ar gyfer Gwaith Cymdeithasol:** Gwahoddwyd gweithwyr cymdeithasol a oedd wedi gadael y gofrestr yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i ail-ymuno â chofrestr newydd, dros dro fel y gellid eu hailsefydlu yn y gwasanaeth os oedd hynny'n ofynnol gan gyflogwyr.
- **Gofynion cymeradwyo ar gyfer hyfforddiant cymhwysio Gwaith Cymdeithasol yng ngoleuni Covid:** Yn sgil y pandemig, roedd yn rhaid cwtogi'n aml ar leoliadau ymarfer ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Fe wnaethom gydweithio â Sefydliadau Addysg Uwch i ganfod llwybrau ar gyfer myfyrwyr a oedd wedi dangos y cynnydd a'r cymhwysedd gofynnol i gymhwysio.

## Addasrwydd i ymarfer

### Amserlennu a chynnal gwrandawiadau yn ystod Covid

Gydol 2020-21, cynhaliwyd pob un o'n gwrandawiadau panel Gorchmynion Atal Dros Dro (ISO), adolygiadau ISO, Apeliadau Cofrestru a Gwrandawiadau Addasrwydd i ymarfer o bell.

**346** o unigolion cofrestredig yn destun honiadau a oedd yn cwestiynu eu addasrwydd i ymarfer (mae hyn yn cynrychioli 1% o'r Gofrestr)

**162 (47%)** o atgyfeiriadau'n ymwneud ag unigolion cofrestredig a oedd yn destun prosesau disgyblu

Cynhaliwyd **29** gwrandawriad terfynol

Cafodd **16** o bobl eu tynnu oddi ar y Gofrestr

O'r rhai a gafodd eu tynnu, roedd:

**56% (9)** – yn weithwyr gofal preswyl i blant

**6% (1)** – yn rheolwyr cartrefi gofal i oedolion

**6% (1)** – yn weithwyr cymdeithasol

**19% (3)** -yn rheolwr gofal cartref

**13% (2)** – yn weithwyr gofal cartref.

## Hyrwyddo cydnabyddiaeth i'r gweithlu

Cynhyrchwyd y cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol a cherdyn gweithiwr y blynyddoedd cynnar a phlant ar ddechrau'r pandemig (lansiwyd ym mis Ebrill 2020) i gydnabod y rôl allweddol sydd gan weithwyr o ran cefnogi pobl ym mhob cymuned yng Nghymru. Roedd y cerdyn yn darparu buddion defnyddiol i weithwyr fel amseroedd siopa ffafriol, mynediad blaenoriaeth at fanwerthwyr penodol ac adnoddau a rhaglenni ar-lein ychwanegol i gefnogi llesiant. Mae 30,000 a mwy o weithwyr wedi cael cerdyn hyd yma. Gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i adolygu a diweddarau'r buddion sy'n gysylltiedig â'r cerdyn ac wedi cynnal ei amlygrwydd ymysg manwerthwyr.

Lansiwyd fersiwn newydd o'r cerdyn digidol ym mis Ebrill 2021 (gan fod y cerdyn gwreiddiol wedi dod i ben ddiwedd Ebrill 2021). Cafodd yr hyn a ddysgwyd yn dilyn adborth gan ddeiliaid cardiau presennol ei gymhwyso wrth gynhyrchu'r cardiau newydd. Fe wnaethom ystyried buddion ychwanegol yn y dyfodol y gellir eu hatodi i'r cerdyn ynghyd â'r ffordd y gellir brandio a dylunio'r cerdyn ar gyfer y gweithlu gofal yng Nghymru. Mae'r dull unigol hwn yn cynnwys gofal cymdeithasol a gofal y blynyddoedd cynnar a phlant.

## Cefnogi llesiant y gweithlu

Ym mis Rhagfyr 2020 lansiwyd y Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn y sectorau preifat a gwirfoddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r cynllun, gyda chyllid o £150,000 a gaffaelwyd ac sy'n cael ei reoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cynllun ar gael i tua 55,000 o weithwyr gofal cymdeithasol, nad ydynt efallai wedi cael mynediad at gynllun o'r fath, er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i'w llesiant. Mae'r cynllun yn cydnabod yr effaith bersonol y mae Covid wedi'i chael ar lawer o weithwyr a bydd yn sicrhau bod cymorth ar gael yn fwy cyson ar draws y sector. Cynhaliwyd gweminar i 120 a mwy o fynychwyr. Fel rhan o lansiad y cynllun denodd gweminar i reolwyr dros 200 o gyfranogwyr.

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar y cymorth llesiant sydd ar gael drwy ein gwefan, a'r tudalennau Covid a llesiant sydd wedi cael yn nifer uchaf o ymweliadau ers dechrau'r pandemig.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Gwelliant Cymru er mwyn darparu rhwydwaith cymorth gan gyfoedion i reolwyr cartrefi gofal o'r enw Cwtch Cartref Gofal. Gwnaethom lansio cynnig cymorth gan gyfoedion ar gyfer rheolwyr gofal cartref hefyd o'r enw 'Amser i Chi'. Mae'r adborth ar y sesiynau a gynhaliwyd wedi bod yn gadarnhaol ac mae ail gyfres o sesiynau pellach wedi'i hagor i gyfranogwyr newydd yn ogystal â chyfranogwyr presennol.

Aethom ati i sefydlu rhwydwaith llesiant gofal cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau a dulliau o gefnogi llesiant y gweithlu yn wyneb y pwysau uniongyrchol o Covid a dyheadau tymor hwy hefyd o strategaeth y gweithlu er enghraifft drwy ddechrau gweithio ar fframwaith llywodraethu staff.

**“Rydw i wedi dysgu cymaint gan y grŵp ac wedi teimlo cefnogaeth gan bob aelod o'm grŵp”**

**“Mae wedi bod yn llawer mwy buddiol nag a ddychmygais erioed”**

**“Doeddwn i ddim yn sylweddoli faint oedd angen y sesiynau hyn arnaf i nes i mi eu dechrau, un o'r ychydig bethau cadarnhaol o bosibl yn sgil y pandemig.”**

**Rheolwyr gofal cartref**

## Gweithio gyda chi i fod yn effeithiol

### Strategaeth a llywodraethu

Ymgynghorwyd ar ein blaenoriaethau drafft ar gyfer ein cynllun strategol nesaf. Fe wnaethom nodi ein blaenoriaethau a'n cynigion ar gyfer yr hyn rydym am ei gyflawni, lle rydym yn awgrymu ein bod yn canolbwyntio ein hegri a sut rydym am weithio gyda phobl dros y pum mlynedd nesaf er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 10 wythnos a byddwn yn defnyddio'r adborth a gafwyd wrth i ni baratoi ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2022-27 yn ystod y flwyddyn i ddod.

### Cefnogi ein staff i weithio gartref

Ers 23 Mawrth 2020 mae ein gweithlu cyfan wedi bod yn gweithio o bell o'u cartrefi, ac rydym wedi ymrwmo i hyn barhau tan fis Mai 2021 ar y cynharaf. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cynnal 2 Aseiad Risg Gweithio Gartref ar gyfer y staff i gyd ac wedi darparu'r offer TG a swyddfa angenrheidiol i gynorthwyo staff wrth iddynt weithio o bell. Rydym wedi cynnal nifer o arolygon staff bach hefyd fel rhan o gefnogi llesiant ein staff. Mae ein Cyngor Partneriaeth Staff wedi parhau i gyfarfod yn fisol i drafod unrhyw faterion sy'n cael eu codi drwy'r cynrychiolwyr.

### Llesiant staff

Fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi ymrwmo i ddangos gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn y ffordd rydym yn gweithio gyda'r sector a'r ffordd rydym yn gweithio o fewn y sefydliad. Wrth weithio o bell, ymddengys mai llesiant staff oedd yr egwyddor graidd wrth reoli parhad busnes a gweithrediadau busnes. Mae hyn yn ymwneud â chefnogi llesiant corfforol a meddyliol ein gweithwyr wrth iddynt weithio o bell ac yn parhau i fyw mewn pandemig sy'n newid yn barhaus a'i gyfyngiadau cysylltiedig.

#### Y gweithlu presennol

**137 (131 wte)**  
o staff

Recriwtiwyd i **30**  
o swyddi

Trosiant staff  
**5.32%**


Absenoldeb salwch  
**2.38%**



## Ymgysylltu a chyfathrebu




Edrychwyd ar dudalennau'r wefan **1,327,854** wedi o weithiau



Cafodd **69,940** o adnoddau eu lawrlwytho o'r wefan - Gostyngiad cyffredinol o 51% yn nifer yr adnoddau a lawrlwythwyd o'r wefan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Y neges drydar a berfformiodd orau wedi cyrraedd **25,029**



**6,515** o ddilynwyr ar Twitter

## Datblygu'r gweithlu

### Strategaeth y gweithlu

Cafodd strategaeth gweithlu 10-mllynedd, 'Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ei lansio ym mis Hydref 2020.

Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'n heriau presennol o ran y gweithlu. Wedi'i ddatblygu ar y cyd gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) a ni ein hunain, mae'n seiliedig ar ymgysylltu helaeth ac mae'n nodi'r weledigaeth, yr uchelgais a'r dulliau gweithredu sy'n rhoi llesiant wrth wraidd cynlluniau ar gyfer y GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu elfen graidd yr Adolygiad Seneddol a 'Phedwar Nod' 'Cymru Iachach' er mwyn darparu gweithlu cynhwysol, cynaliadwy, hyblyg, ymatebol sy'n ymgysylltu i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhagorol.

Mewn partneriaeth ag AaGIC, lluniwyd cynllun gaeaf 6 mis ar gyfer strategaeth y gweithlu, a oedd yn darparu ymateb uniongyrchol a pharhaus i'r pandemig er mwyn cefnogi'r sector ym mhob un o saith maes thema allweddol y strategaeth.

**"Os byddwn ni'n cyflawni'r Strategaeth hon, byddwn ni'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a sylweddol"**  
**Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**"Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol, ond mae hynny'n hanfodol os ydyn ni am fynd i'r afael â'n heriau presennol o ran y gweithlu. Gwyddom fod angen i ni dreulio mwy o amser yn datblygu atebion cynaliadwy ac yn meithrin hyblygrwydd ac ystwythder er mwyn ymateb i anghenion y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ogystal ag anghenion y gweithlu."**  
**Dr Chris Jones, Cadeirydd AaGIC**

## Cymwysterau

Lansiwyd cymwysterau newydd ar gyfer arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant o fis Medi 2020.

Mae'r cymwysterau'n cwmpasu casgliad eang o feysydd, gan gynnwys arwain a rheoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, ymarfer proffesiynol ac eiriolaeth annibynnol. Gan gydweithio â phartneriaid, rydym wedi cefnogi'r broses o weithredu cymwysterau newydd ar gyfer y sector.

**“Dyma’r amser pwysicaf erioed i fuddsoddi yn natblygiad arweinwyr a rheolwyr ein gwasanaethau rheng flaen. Mae’r gyfres newydd hon o gymwysterau yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa.” Sue Evans, ein Prif Weithredwr**

## Cefnogi a hyrwyddo’r sector fel gyrfa

Gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn defnyddio brand Gofalwn Cymru ac yn adeiladu arno er mwyn denu a recriwtio pobl i’r sector yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Mai 2020 darlledwyd hysbyseb deledu gan ymgyrch Gofalwn Cymru ar draws ITV Wales, S4C ac All4 yn cynnwys cerdd gan weithiwr gofal am ei swydd. Er mwyn helpu i ddod â geiriau’r gweithwyr gofal yn fyw, roedd yr hysbyseb yn cynnwys casgliad o glipiau cartref o gartrefi gofal ledled Cymru yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae’r clipiau’n dangos y ffordd y mae gweithwyr gofal yn mynd ‘y tu hwnt i’r gofyn’ er mwyn cadw ysbryd da a helpu preswylwyr i gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid drwy ddefnyddio technoleg.

Datblygwyd porth swyddi Gofalwn Cymru mewn ymateb i’r pandemig er mwyn ei gwneud yn haws i gyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ac fel y gall pobl weld y swyddi gwag sydd ar gael yn eu hardal. Adeiladwyd ar hyn gydol y flwyddyn, lle lansiwyd plattform ceiswyr gwaith a oedd yn cynnwys adnodd dysgu ar-lein sy’n seiliedig ar werthoedd er mwyn helpu pobl i ddarganfod a fyddai gyrfa mewn gofal yn iawn iddynt hwy ac i ganiatáu iddynt lanlwytho eu CV a chysylltu’n uniongyrchol â chyflogwyr.

Yn gynnar yn 2021-22, byddwn yn defnyddio hysbyseb deledu i ddathlu’r ffordd y mae gweithwyr a lleoliadau’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn rhoi’r cychwyn gorau mewn bywyd i gynifer o blant ledled Cymru.

## Datblygu dull recriwtio cyflym a chyflwyniad cyflym i hyfforddiant gofal cymdeithasol ar gyfer y sector yng Nghymru

Mae pryderon ers tro ynglŷn â capasiti'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, sydd wedi dod i'r amlwg i raddau mwy yn ystod Covid. Er mwyn cefnogi gwasanaethau, yn ystod y pandemig a'r heriau'r cynyddol o ran galw, ynghyd ag absenoldeb staff ac ynysu cyswllt, datblygwyd dull recriwtio cyflym a chyflwyniad cyflym i ofal cymdeithasol i gefnogi capasiti ychwanegol i'r sector. Mae'r dull hwn yn cael ei dreialu mewn pedair ardal awdurdod lleol. Roedd y gwaith yn cynnwys datblygu dull recriwtio cyflym a chyflwyniad cyflym i ofal cymdeithasol a oedd yn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo mentrau recriwtio cyflym i ennyn diddordeb yn y sector
- galluogi unigolion i ddangos eu diddordeb mewn gweithio yn y sector
- datblygu chyflwyniad i raglen gofal cymdeithasol a hwylusodd yr hyfforddiant hanfodol sydd ei angen ar unigolion i ymgymryd â rolau cymorth gofal cymdeithasol sylfaenol
- darparu rhaglen 4 diwrnod – chyflwyniad i ofal cymdeithasol
- cydweithio â chyflogwyr i nodi'r mathau o rolau y gallai'r gweithlu hwn eu cefnogi
- hysbysu cyflogwyr am unigolion sy'n 'barod' ar gyfer rolau cymorth gofal cymdeithasol
- sefydlu gwerthusiad er mwyn dysgu gwersi o'r rhaglen beilot.

## Buddsoddi yn y gweithlu

Rydym wedi buddsoddi mewn cefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol, fel y bydd ganddynt y wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r agwedd briodol i ddarparu gofal a chymorth da.

Roedd hyn yn cynnwys £7,149,350, a dalwyd i awdurdodau lleol drwy Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru a darparwyd £3,064,007 o gyllid cyfatebol gan awdurdodau lleol.

Buddsoddodd yr awdurdodau lleol gyllid ychwanegol hefyd i ategu'r grant i gefnogi datblygiad y gweithlu.

Yn ychwanegol, darparwyd £810,000 ar ffurf grant hwyluso rhanbarthol er mwyn helpu i gefnogi gwaith ymgysylltu ar draws y sector gan gynnwys rheolwyr cofrestredig a chymorth gyda gwaith yr ymgyrch Gofalwn Cymru.

Fe wnaethom ddatblygu cynnig bwrsari gwell hefyd ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n dychwelyd, gan gydnabod yr heriau ariannol a gweithredol a wynebwyd ganddynt yn ystod yr argyfwng Covid. Derbyniodd pob myfyriwr a oedd yn dychwelyd £500 yn ychwanegol ym mwrsari eu tymor cyntaf.

## Arwain a chefnogi gwelliant

### Plant agored i niwed

Drwy ein haelodaeth â'r Grŵp Cynghori Gweinidogol, rydym wedi darparu cymorth i'r sector er mwyn datblygu ffocws cryfach ar hawliau a chyfrifoldebau. Fe aethom ati ar y cyd i drefnu cynhadledd i ddathlu'r gweithlu gofal preswyl i blant, sy'n cefnogi llawer o'n plant mwyaf agored i niwed.

### Rhwydweithiau dementia

Ers mis Ebrill 2020, rydym wedi bod yn cynnal ein holl rwydweithiau yn rhithwir er mwyn cefnogi sgiliau a dysgu'r sector. Fel enghraifft, mae gan y Rhwydwaith Cydgysylltwyr Dysgu Dementia 76 o aelodau o blith darparwyr ieched, gofal cymdeithasol ac annibynnol. Mae'r rhwydwaith wedi mynd ati i rannu adnoddau gydol y pandemig. Cynhaliwyd gweminarau gydol y cyfnod er mwyn ystyried sut gellir datblygu hyfforddiant a dysgu dementia yn ystod Covid a thu hwnt. O ran cefnogi'r sector i sefydlu ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi bod yn cynnal rhwydweithiau dysgu ar-lein gydag is-grŵp mentoriaid er mwyn myfyrio ar gyfleoedd a heriau ymarfer yn ystod y 6 mis diwethaf o sefydlu ymarfer sy'n seiliedig ar ganlyniadau gydol y pandemig.

### Fframwaith Cenedlaethol Datblygu Rheolwyr

Cafwyd llwyddiant parhaus i'n fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu rheolwyr yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r fframwaith yn cyfuno cyfleoedd datblygu achrededig a phroffesiynol, yn bennaf ar gyfer adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'u rheolwyr, ar draws y 22 awdurdod lleol. Ers i'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm gychwyn, mae tua 500 o fyfyrwyr wedi cael cymorth gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac ADSS Cymru i ymgymryd â'r rhaglen hyfforddi hon ac fe gychwynnodd cohort 31 ym mis Medi 2020.

### Ymchwil a datblygu

Mae'r uchelgais i ymgorffori tystiolaeth mewn ymarfer a pholisi ym maes gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn rhan allweddol o strategaeth ymchwil a datblygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2018-23, ac yn un o dri phrif faes yn Fframwaith Perfformiad a Gwella Llywodraeth Cymru.

Mae ein Strategaeth wedi llywio ein gwaith a bydd yn cael ei hadnewyddu, yn unol â'n Cynllun Strategol cyffredinol newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ystod 2020-21, rydym wedi cryfhau ein gwaith partneriaeth, er mwyn gwella ein dylanwad ar flaenoriaethau ymchwil a datblygu ein cynnig data, sy'n rhan o'n cynnig tystiolaeth ar gyfer y sector.

Rydym yn cydweithio â'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) er mwyn canfod pa wybodaeth ac ymchwil da fydd eu hangen ar ymarferwyr rheng flaen ac er mwyn nodi a ellir ymgorffori'r newidiadau hyn yn ystyrllon wrth gynllunio gofal a chymorth yn y dyfodol.



## Prosiect blaenoriaethu ymchwil

Datblygwyd deg blaenoriaeth ymchwil ar gyfer gofal a chymorth y rhai 65 oed a hŷn yng Nghymru gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, yn nodi blaenoriaethau'r ymchwil ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cael cyrff ariannu i gomisiynu ymchwil arnynt.

Datblygodd y prosiect, a gynhelir ar y cyd â Chynghrair James Lind, y blaenoriaethau drwy ofyn i bron i 400 o bobl hŷn, gofalwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol, "Beth yw'r ffordd orau y gallwn ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy er mwyn helpu pobl hŷn i fyw bywydau hapusach a mwy boddhaus?"

Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol i gymryd rhan mewn arolygon a gweithdai er mwyn cael dweud eu dweud ar y blaenoriaethau.

## Datblygu blaenoriaethau ymchwil Covid

Mae Covid wedi amlygu'r sector gofal a'r angen am newid a buddsoddi. Mae angen nodi'r dystiolaeth ddiweddaraf o ansawdd uchel er mwyn sicrhau bod buddsoddi mewn dulliau newydd yn y maes gwaith cymdeithasol ac ymarfer gofal cymdeithasol yn fuddsoddiad y gellir ei gyfiawnhau ac yn ddarbodus. Cafwyd llawer o drafod hefyd ynghylch y ffordd y mae newid mewn safbwyntiau wedi digwydd law yn llaw â'r argyfwng, er enghraifft, ar gydnerthedd cymorth cymunedol, ac undod cymdeithasol, sy'n helpu cymunedau i ddarparu cymorth effeithiol i'w gilydd, yn unol â dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym yn gweithio gyda chanolfan Tystiolaeth Covid i lywio eu gweithgareddau.

## Datganiad o Fwriad Strategol ar ddata gofal cymdeithasol

Ym mis Mawrth, lanswyd gweledigaeth newydd er mwyn gwella'r ffordd y defnyddir data gofal cymdeithasol er budd pobl sydd angen gofal a chymorth yng Nghymru. Mae'r weledigaeth yn nodi sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl ynghylch defnyddio eu data er eu budd ac yn cefnogi'r uchelgeisiau a nodir yn Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn dilyn adroddiad darganfod a gyhoeddwyd mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac yn seiliedig ar ymgysylltu helaeth er mwyn amlinellu'r ffordd y gallwn wella a datblygu'r defnydd o ddata ym maes gofal cymdeithasol, fel y gellir cynorthwyo'r sector i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

**"Mae gennym gyfle nawr i ddangos yr hyn y gall cenedl sy'n gyfoethog o ran data ei gyflawni i bobl sydd angen gofal a chymorth ac ar gyfer gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Y Datganiad hwn o Fwriad yw'r cam nesaf tuag at wireddu'r weledigaeth hon."**

**Julie Morgan AS,  
Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Gwobrau

Yn 2020 cynhaliom seremoni wobrwyo Gwobrau rhithwir ym mis Tachwedd 2020 a ddarllledwyd yn fyw ar YouTube. Dyfernir y Gwobrau i dimau, grwpiau neu sefydliadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth; cefnogi datblygiad staff; helpu i wella gwasanaethau; diwallu anghenion cydraddoldeb, amrywiaeth ac iaith pobl. Mae ennill Gwobr yn arddangos cyflawniadau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar ac mae'n gyfle i rannu arfer gorau ag eraill ar draws y sector. Dewiswyd pedwar ar ddeg o brosiectau a phum gweithiwr gofal gan ein panel o feirniaid yn y rownd derfynol ar gyfer Gwobrau 2020. Roedd chwe categori ac un enillydd ym mhob categori. Gallwch wyllo'r fideos am yr holl gystadleuwyr yn y rownd derfynol [ysbrydoledig ar-lein](#).

## Adroddiad atebolrwydd

### Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol

#### Adroddiad y Cyfarwyddwr

##### Hanes a Chefndir Statudol

Cafodd Cyngor Gofal Cymru ei ailenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016 a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn fydd y pedwerydd i'w baratoi fel Gofal Cymdeithasol Cymru. Paratowyd dwy ar bymtheg o Adroddiadau a Chyfrifon blaenorol fel Cyngor Gofal Cymru.

Paratowyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon o dan Atodlen 2, Rhan 6, Paragraff 16 (1-3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016; fe'i cyflwynir mewn ffurf ar sail cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

##### Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd Sue Evans.

##### Aelodau Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru

Ar 31 Mawrth 2021, roedd pymtheg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a benodwyd gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

##### Aelodau'n gwasanaethu o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

###### Aelodau

Mick Giannasi - Cadeirydd (tymor yn dod i ben Gorffennaf 2023)  
 Abigail Harris (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2025)  
 Carl Cooper (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2025)  
 Damian Bridgeman (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2024)  
 Donna Hutton (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2024)  
 Emma Britton (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2025)  
 Grace Quantock (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2025)  
 Joanne Kember (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2025)  
 Jane Moore (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2024)  
 Kate Hawkins (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2022)  
 Maria Battle (tymor yn dod i ben 30 Mehefin 2023)  
 Peter Max (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2024)  
 Rhian Watcyn Jones (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2022)  
 Simon Burch (tymor yn dod i ben 31 Mawrth 2024)  
 Trystan Pritchard (tymor yn dod i ben 30 Mehefin 2023)

Yn ogystal, mae Daxia Varsani yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a bydd ei thymor yn dod i ben ar 30 Ebrill 2023.

Mae cofrestr o fuddiannau aelodau o ddatganwyd ar gael ar ein gwefan.

Yn unol ag arfer gorau ac arweiniad, sefydlodd Gofal Cymdeithasol Cymru Bwyllgor Archwilio a risg adeg ei greu. Daw'r aelodaeth o Aelodau'r Bwrdd yn ogystal ag aelod annibynnol cyfetholedig. Mae cynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol a'r Tîm Rheoli Gweithredol yn mynychu'r cyfarfodydd.

## Datganiad o gyfrifoldebau Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Prif Weithredwr

O dan Atodlen 2, Rhan 6 Paragraff 16(1-2) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru baratoi cyfriflen ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y cyfryw ffurf ac ar sail cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o amgylchiadau Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddiwedd y cyfnod, ac o'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifo addas yn gyson
- ffurfio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol a
- pharatoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei fod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdanynt, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Gofal Cymdeithasol Cymru, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwy'n cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwybod amdani, a fy mod wedi cymryd pob cam i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn gwybod am y wybodaeth honno.

Rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yr wyf yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac am y barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

### Sue Evans

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2021

## Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn nod strwythur reoli Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn darparu adroddiad ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg, a disgrifiad o'r risgiau strategol.

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn nodi:

- y sail dros ein sefydlu
- y ffordd rydym yn cael ein llywodraethu a'n rheoli
- sut yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn atebol am yr hyn a wnaeth.

## Ein sefydliad

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB). Mae hyn yn golygu ein bod ni'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gwblhau blaenoriaethau penodol a nodir yn flynyddol drwy lythyr cylch gwaith.

Fe'n sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (Cymru) 2016 ym mis Ebrill 2017 i 'barhau â gwaith a wnaed cyn hynny gan Cyngor Gofal Cymru, sef rheoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yr un pryd ymgymryd â chyfrifoldeb newydd dros arwain gwelliant a'i gefnogi ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau o gyflwyno data a thystiolaeth, cynghori ar ymchwil ym maes gofal cymdeithasol ac arddangos arferion gorau.'

Mae'n bwysig nodi bod y datganiad llywodraethu hwn wedi'i ysgrifennu yng nghyd-destun pandemig Covid. Roedd gweithgareddau ein cynllun busnes ar gyfer 2020-21 yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gefnogi'r maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn ystod y cyfnod digynsail hwn er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a pharhaus at ansawdd gwasanaethau yng Nghymru. Oherwydd effaith Covid, roedd gofyn i ni ailystyried ein dull ar gyfer 2020-21 er mwyn sicrhau bod ein ffocws ar y canlynol:


- cyflawni ein swyddogaethau craidd a statudol: a addaswyd yn ôl y gofyn yn wyneb Covid, yn cynnwys newidiadau i'n system reoleiddio er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i'r sector yn ystod yr argyfwng.
- mentrau ymateb cyflym i Covid: yr hyn rydym yn ei wneud fel ymateb uniongyrchol i anghenion y sector nawr
- cefnogi adferiad a chynaliadwyedd yn dilyn Covid: cefnogi'r sector a'n sefydliad i baratoi ar gyfer adferiad cynaliadwy.

Fe wnaeth Covid gael effaith ar y ffordd roeddem yn gweithredu fel busnes yn ystod y flwyddyn hefyd gyda'r staff i gyd yn gweithio o bell. Mae ein cynllun busnes blynyddol yn nodi'n fanylach y gweithgareddau a nodwyd gennym i gefnogi'r sector a'n sefydliad yn ystod 2020-21, yn wyneb Covid. Roedd y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn monitro a chraffu ar ein perfformiad bob chwarter gydol y flwyddyn.

## Ein strwythur llywodraethu ac atebolrwydd

Yn unol â'r 'Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu da yn y sector cyhoeddus', mae llywodraethu'n 'cynnwys y trefniadau<sup>1</sup> a gyflwynwyd i sicrhau bod y canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni'.

Mae gennym fframwaith llywodraethu sy'n cefnogi sut rydym yn gweithio. Gwelir hyn yn y diagram isod – ein fframwaith llywodraethu:




**Cytundebau:** Protocolau rhannu data, memorandwm cyd-ddealltwriaeth

**Rheoliadau/Deddfwriaeth:** Iechyd a diogelwch; cydraddoldeb; y Gymraeg; rhyddid gwybodaeth; Deddf Diogelu Data; cynllun cyhoeddi

1. Yn cynnwys strwythurau a phrosesau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, cyfreithiol a gweinyddol, a threfniadau eraill, fel sydd wedi'u crynhoi yn yr egwyddorion.

## Atebolrwydd

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB), rydym yn atebol i'r trethdalwr a rhaid i ni sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni gwerth am arian. Mae ein fframwaith atebolrwydd fel yr oedd ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y Bwrdd a minnau fel Prif Weithredwr yn fy rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu wedi'i fapio isod.



Yn ystod y flwyddyn dyma'r camau a gymerwyd i sicrhau ein hatebolrwydd:

- Cyfarfod rhwng ein Tîm Rheoli Gweithredol â chynrychiolwyr o'n his-adran noddi yn Llywodraeth Cymru bob tri mis i fynd trwy berfformiad ein cynllun busnes a'n gwariant cyllideb hyd yn hyn.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'n Cadeirydd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.
- Mynychodd y Cadeirydd a minnau ein cyfarfod blynyddol gyda'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Hydref 2020.
- Cynhaliodd ein Bwrdd ei gyfarfod blynyddol â'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Hydref 2020.



## Ein Bwrdd a'n Pwyllgorau

Mae ein Cadeirydd ac 14 Aelod Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a chyfeiriad i ni. Maent yn cydweithio'n agos â'r Tîm Rheoli Gweithredol i lunio'r cynlluniau strategol a busnes, dyrannu adnoddau a monitro perfformiad. Mae ein gwaith yn cael ei lywio a'i gymeradwyo gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau ac maent yn craffu arno hefyd.

Oherwydd Covid, bu modd cynnal yr holl gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yn llwyddiannus yn ystod 2020-21 yn rhithwir.

Mae'r diagram yn dangos strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgorau ar 31 Mawrth 2021:

### Bwrdd

- Gwneud penderfyniadau ar y materion a gadwyd i'r Bwrdd
- Darparu arweiniad a chyfeiriad drwy lunio'n cynllun strategol a busnes
- Craffu ar adnoddau a pherfformiad – drwy adroddiadau perfformiad rheolaidd ar y cynlluniau busnes
- Gosod cyfeiriad strategol y sefydliad
- Data ymgysylltu â gweithwyr, llywodraethu AD a pholisi drwy graffu ar berfformiad
- Arddel safonau llywodraethu corfforaethol uchel – cytuno ar Gylch Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Derbyn negeseuon allweddol a chyingor gan y Tîm Rheoli Gweithredol

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Cynghori'r Bwrdd ar:

- pa mor effeithiol yw trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu
- uniondeb yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
- pa mor ddigonol yw ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan waith archwilio sicrwydd sy'n ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol y Bwrdd
- penodi darpariaeth Archwilio Mewnol ac adolygu pa mor effeithiol ydyw bob blwyddyn

### Pwyllgor Gwella

Cynghori'r Bwrdd ar:

- strategaethau a pholisïau sy'n gysylltiedig ag egwyddorion buddsoddi, gwella a rhaglenni dysgu a datblygu cenedlaethol
- sicrhau ansawdd y rhaglenni ymchwil, datblygu a gwella
- gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau

Cynghori'r Bwrdd ar:

- strategaethau a pholisïau yn enwedig o ran cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol a materion addasrwydd i ymarfer cysylltiedig
- sicrhau ansawdd y rhaglen rheoleiddio hyfforddiant a derbyn adroddiadau rheolaidd ar faterion rheoleiddio
- goblygiadau datblygiadau ym maes rheoleiddio a sut y gallai'r rhain effeithio ar gyfrifoldebau'r Bwrdd
- gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

### Pwyllgor Cyflogau a Llesiant

Cynghori'r Bwrdd ar:

- faterion sy'n ymwneud ag adolygu cyflogau'r Tîm Rheoli Gweithredol, ac ystyried argymhellion taliad blynyddol y staff yn unol â'n polisi

## Cyfleoedd i gryfhau llywodraethu corfforaethol

Fel sefydliad sydd am barhau i ddysgu a gwella ystyriodd y Bwrdd amrywiaeth o gyfleoedd er mwyn adeiladu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol cyfredol yn ystod 2020-21.

Ym mis Gorffennaf 2020, cytunodd y Bwrdd ar gyfleoedd i adeiladu a gwella ein trefniadau llywodraethu ac amserlenni ar gyfer eu cyflawni. Mae'r cynigion canlynol wedi'u datblygu yn ystod 2020-21:

- defnyddio logiau gweithredu treigl ym mhob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor
- creu Grŵp Cydgysylltu Cadeiryddion
- datblygu Proses Weithredu ar gyfer Cadeiryddion i'w defnyddio'n ôl y gofyn
- ehangu aelodaeth y Pwyllgor
- troi'r Pwyllgor Cyflogau yn bwyllgor ad-hoc gyda chylch gorchwyl diwygiedig
- dull newydd ar gyfer cofnod datblygu arfarniad perfformiad aelodau'r Bwrdd
- trafodaethau cychwynnol ar ddatblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd.

### Datblygiad a gwaith ymgysylltu'r Bwrdd

Parhaodd aelodau'r Bwrdd i ddysgu a datblygu yn ystod y flwyddyn gyda chyfres o seminarau a gynhaliwyd yn rhithwir. Dyma byncia'r seminarau:

- datblygu briff ar gyfer rhanddeiliaid yn amlinellu'r prif faterion ar gyfer gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru
- adolygu a datblygu cynllun strategol newydd; cyllidebu ar gyfer y cynllun strategol gyda Grant Thornton fel cyfeillion beirniadol; adolygu adborth o ymgynghoriad y cynllun strategol
- adolygu ein dull o reoli risgiau
- y wybodaeth ddiweddaraf am ein dull o gefnogi ein staff yn ystod y pandemig
- y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith yn cefnogi'r sector drwy'r pandemig
- hyfforddiant ymwybyddiaeth ariannol
- sesiwn ar fframweithiau sicrwydd bwrdd gan Archwilio Cymru
- trafodaethau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newid ffocws gofal cymdeithasol.

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Gan ein bod yn sefydliad sy'n dysgu, rydym yn myfyrio'n rheolaidd ar effeithiolrwydd ein polisiau, ein prosesau a'n cyfarfodydd. Yn ystod Mawrth 2021, gofynnwyd i ni lenwi holiadur eang i lywio'r camau ar gyfer gwella'n barhaus.

Roedd cwestiynau'r arolwg yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- amcanion, strategaeth, a chylch gwaith
- cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill
- perfformiad a rheoli risg
- ystafell y Bwrdd
- awgrymiadau ar gyfer gwella effeithiolrwydd y Bwrdd.

Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn 73% a'r canlyniadau'n gadarnhaol ar y cyfan, gyda mwyafrif yr ymatebion naill ai'n cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau a ofynnwyd. Trafodwyd y canlyniadau yng nghyfarfod Ebrill 2021 o'r Bwrdd er mwyn llywio unrhyw welliannau gofynnol wrth symud ymlaen.

Anfonwyd holiadur tebyg i aelodau Pwyllgorau i fyfyrio ar eu heffeithiolrwydd yn ystod Ionawr 2021, a gofynnwyd i holl aelodau'r pwyllgorau lenwi holiadur eang i lywio camau gweithredu ar gyfer gwelliannau parhaus.

Roedd cwestiynau'r arolwg yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- aelodaeth, annibyniaeth, gwrthrychedd a dealltwriaeth
- sgiliau
- rôl a chwmpas y Pwyllgor
- cyfathrebu ac adrodd
- effeithiolrwydd cyfarfodydd.

Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg ar gyfer pob pwyllgor yn amrywio rhwng 50 y cant a 90 y cant. Coladwyd y canlyniadau a'u cyflwyno i'r Pwyllgorau i'w trafod yn eu cyfarfodydd yn y gwanwyn, ac i lywio'n cynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae effeithiolrwydd cyfarfodydd yn ymddangos fel eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, gyda chadeiryddion pob Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwahodd adborth yn ystod ac ar ôl y cyfarfodydd.

### **Presenoldeb aelodau yng nghyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau**

Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu talu am yr hyn sy'n gyfwerth â dau ddiwrnod o waith y mis. Yn ogystal â'n 15 aelod a benodwyd yn gyhoeddus mae gennym nifer o unigolion cyfetholedig ar ein Pwyllgorau:

- mae Daxa Varsani yn aelod cyfetholedig annibynnol, heb hawliau pleidleisio, gyda chefnidir a chymhwyster ariannol proffesiynol sy'n cefnogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- mae cynrychiolydd o Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd sy'n aelod o'r Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau fel aelod cyfetholedig.
- mae'r Pwyllgor Gwella wedi creu dau aelod cyfetholedig, cynrychiolydd o ADSS Cymru a Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe sydd â chefnidir yn y maes ymchwil i gefnogi'r Pwyllgor Gwella.

Mae Rheolau Sefydlog y Bwrdd yn nodi'r lefel presenoldeb disgwylidig ar gyfer aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd, sef 60 y cant. Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos presenoldeb yr aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn ystod 2020-21.

Er mwyn helpu aelodau i wneud penderfyniadau effeithiol, mae papurau ar gyfer pob cyfarfod Bwrdd a Phwyllgor yn cael eu hanfon i borth digidol, gydag amrywiaeth eang o ddogfennau technegol ategol.

Enw	Aelodaeth Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd (allan o 5)	Presenoldeb yn sesiynau datblygu'r Bwrdd (allan o 8)	Presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor	Presenoldeb cyffredinol mewn cyfarfodydd (yn cynnwys pwyllgorau)	Tymor penodiad yn dod i ben
Mick Giannasi (Cadeirydd)		5	8		13/13 <b>100%</b>	31.07.23
Abigail Harris	Gwella, Archwilio a Risg	4	5	6/7	15 / 20 <b>75%</b>	31.03.25
Daxa Varsani	Archwilio a Risg	amh	amh	4/4		30.04.23
Carl Cooper	Audit and Risk; Improvement;	5	7	9/9	21 / 22 <b>95%</b>	31.03.25
Damian Bridgeman	Gwella (Dirprwy Cadeirydd), Archwilio a Risg	5	7	6/7	18 / 20 <b>90%</b>	31.03.24
Donna Hutton	Rheoleiddio a Safonau; Cyflogau a Llesiant; Gwella	4	6	6/9	16 / 22 <b>73%</b>	31.03.24
Emma Britton	Archwilio a Risg (Dirprwy Gadeirydd); Rheoleiddio a Safonau	5	4	7/7	16 / 20 <b>80%</b>	31.03.25
Grace Quantock	Rheoleiddio a Safonau (Dirprwy Gadeirydd); Archwilio a Risg	5	5	6/7	16 / 20 <b>80%</b>	31.03.25
Jane Moore	Gwella; Cyflogau a Llesiant; Rheoleiddio a Safonau	5	8	9/9	22 / 22 <b>100%</b>	31.03.24
Joanne Kember (Dirprwy Gadeirydd)	Rheoleiddio a Safonau; Cyflogau a Llesiant; Gwella	5	8	9/9	22 / 22 <b>100%</b>	31.03.25
Kate Hawkins	Archwilio a Risg; Rheoleiddio a Safonau	5	7	7/7	19 / 20 <b>95%</b>	31.03.22
Maria Battle	Cyflogau a Llesiant; Gwella	3	5	2/5	10 / 18 <b>56%</b>	30.06.23
Peter Max	Gwella (Cadeirydd); Archwilio a Risg	5	7	7/7	19 / 20 <b>95%</b>	31.03.24

Enw	Aelodaeth Pwyllgor	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd (allan o 5)	Presenoldeb yn sesiynau datblygu'r Bwrdd (allan o 8)	Presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor	Presenoldeb cyffredinol mewn cyfarfodydd (yn cynnwys pwyllgorau)	Tymor penodiad yn dod i ben
Rhian Watcyn Jones	Archwilio a Risg (Cadeirydd)	5	7	4/4	16 / 17 <b>94%</b>	31.03.22
Simon Burch	Rheoleiddio a Safonau (Cadeirydd)	5	8	4/4	17 / 17 <b>100%</b>	31.03.24
Trystan Pritchard	Archwilio a Risg; Rheoleiddio a Safonau	5	7	7/7	19 / 20 <b>95%</b>	30.06.23

## Effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu

Mae Covid wedi cael effaith sylweddol ar y sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar. Mae wedi cael effaith fawr hefyd ar ein holl swyddogaethau. O symud pob aelod staff i weithio gartref gan fynd ati'r un pryd i gynnal prosesau llywodraethu a rheoli cryf. Nod ein hymateb i Covid yw cydnabod yr ystythder a'r cyflymder sydd angen wrth ymateb gan gofio hefyd ei bod yn bwysig bod y Bwrdd yn cael sicrwydd bod mesurau diogelu cymesur ar waith er mwyn sicrhau bod rheoleidd-dra, priodoldeb, dichonolrwydd a gwerth am arian wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Derbyniodd y Bwrdd bapurau ym mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021 yn adrodd ar ein hymateb i Covid. Roedd hyn yn cynnwys ein cofrestr penderfyniadau Covid; ein cofrestr risgiau strategol Covid; ein hymateb wrth gefnogi'r sector yn ystod Covid; a'r camau a gymerwyd i gefnogi iechyd a llesiant ein gweithlu yn ystod Covid.

Yn ystod Covid, rydw i wedi cynnal sesiynau briffio staff bob pythefnos i rannu penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd a'r tîm Gweithredol, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ac i roi cyfle i aelodau staff ofyn cwestiynau. Rydw i wedi cyfarfod ag aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd hefyd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am weithgareddau'r sefydliad wrth ymateb i'r pandemig.

O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi bod yn cofnodi ein dysgu o weithio yng nghyd-destun Covid. Rydym wedi bod yn rhannu ein dysgu â chyrrff cyhoeddus eraill ac yn dysgu am arferion da sefydliadau eraill hefyd.

Gydol y flwyddyn, rydw i'n cael sicrwydd bod ein hamcanion busnes a strategol yn cael eu bodloni drwy gyfarfodydd rheoli mewnol, adroddiadau ar gyllidebau a pherfformiad, a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau. Rydw i'n gweithredu 'polisi drws agored rhithwir' lle gall unrhyw aelod staff gysylltu â mi gydag unrhyw fater a all fod yn peri pryder iddo/iddi. Rydw i'n hyrwyddo'r Cyngor Partneriaeth Staff a'r Fforwm Staff hefyd fel ffordd o sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n glir ag aelodau staff am ein blaenoriaethau ar draws y sefydliad.

Rydym yn ymgymryd â'n gwaith gan ddefnyddio cynllun dirprwyo a chyfarwyddiadau ariannol i sicrhau bod ein penderfyniadau'n briodol ac yn gymesur â lefel y risg gysylltiedig.

Rydym yn cynnal ac yn adolygu cofrestru buddiant ar gyfer gweithwyr ac aelodau'r Bwrdd hefyd er mwyn nodi unrhyw wrthdaro posibl neu ganfyddedig gyda phrosesau gwneud penderfyniadau fel ein bod ni'n gallu cymryd camau i'w lliniaru.

## Archwilio mewnol

Lluniwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar sail risg, a chytunwyd arno gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau (rheoleiddio ariannol, corfforaethol a'r gweithle) o reoli mewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Yn ystod 2020-21, cynhaliwyd 10 archwiliad mewnol ar ein polisiau a'n gweithdrefnau ar gyfer:

Maes	Lefel sicrwydd
Systemau ariannol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prynu a thaliadau</li> <li>• Cyfriflyfr cyffredinol</li> </ul>	Sicrwydd cymedrol Sicrwydd sylweddol
Rheoli grantiau	Sicrwydd sylweddol
Llywodraethu Corfforaethol	Sicrwydd sylweddol
Rheoli risg	Sicrwydd cymedrol
Adnoddau Dynol	Sicrwydd cymedrol
Safonau'r Gymraeg	Sicrwydd cymedrol
Ardystio prentisiaethau	Sicrwydd sylweddol
Rheoleiddio'r Gweithlu (gwrandawiadau o bell)	Sicrwydd cymedrol
Rheoleiddio'r Gweithlu – Ceisiadau ar gyfer cofrestru	Sicrwydd sylweddol

### Diffiniadau o lefel sicrwydd

**Sylweddol:** Ceir fframwaith rhesymol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a ddylai sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni.

**Cymedrol:** Mae angen rhywfaint o welliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Ar sail y gwaith archwilio a wnaed yn ystod y flwyddyn, daeth y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad bod gennym system reoli fewnol gadarn, a ddylai roi sicrwydd sylweddol y byddwn yn gallu cyflawni'n hamcanion.

## Archwilio allanol

Rydym yn derbyn Adroddiad yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol a'r Llythyr Rheoli sy'n adrodd ar faterion sy'n codi o archwilio'r datganiadau ariannol.

## Rheoli risg

Mae ein dull cadarnhaol o reoli risg yn golygu nad ydym yn edrych ar y risg o bethau'n mynd o chwith yn unig. Rydym yn edrych hefyd ar effaith peidio â manteisio ar gyfleoedd neu gryfderau corfforaethol. Caiff ein cofrestr risg strategol ei hadolygu bob chwarter gan ein Tîm Rheoli Gweithredol ac wedyn bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu arni. Bu'r Bwrdd yn myfyrio hefyd ar ein Polisi Rheoli Risg yn ystod sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Ionawr 2021 a datblygwyd Polisi Rheoli Risg diwygiedig i'w gymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod 2021-22.

Fel rhan o'n hymateb i Covid, datblygwyd cofrestr risg benodol sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n gysylltiedig yn benodol â'r pandemig a'n hymateb cychwynnol wrth gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar yn ein hymateb i Covid. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y gofrestr risg Covid yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin, mae nifer o'r risgiau hynny wedi'u trosglwyddo i'r Gofrestr Risg Strategol wrth i ni gydnabod ein bod, erbyn hyn, yn byw gyda Covid.

Ein prif risgiau strategol yn ystod 2020-21:

Teitl y risg	Cynhenid	Mawrth 2021
<p>Os nad ydym yn parhau i ymgysylltu â'r sector ynghylch gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn dechrau colli hygrededd ac ni fyddwn yn cyflawni ein huchelgais gyffredinol gan na allwn ei chyflawni ar ein pen ein hun.</p> <p>Nid yw'r sector yn ymgysylltu â'n rôl a'n cylch gorchwyl.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Mae llawer o weithgareddau a drefnwyd wedi'u gohirio, gan nad oedd modd i'r sector gyfrannu, oherwydd pwysau gweithredol yn sgil Covid. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u dwyn ymlaen i'n cynllun busnes ar gyfer 2021-22.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Os nad ydym yn dangos sut rydym yn cyfrannu at wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r sector gofal yna byddwn yn colli hygrededd.</p> <p>Ni allwn reoli disgwyliadau'r sector, rhanddeiliaid (yn cynnwys Llywodraeth Cymru) a'r cyhoedd.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein cynllun strategol, yn dilyn ymgynghoriad ar ein blaenoriaethau yn y dyfodol ar ddiwedd 2020. Mae adborth yn llywio cynllun strategol newydd, a fydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2022.</p>	Cymedrol	Isel
<p>Os nad yw'r cymwysterau'n addas i'r diben yna ni fyddant yn bodloni'r gofynion ar gyfer gofal a chymorth o ansawdd uchel yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar.</p> <p>Mae'r rhaglen waith mewn perthynas â datblygu cymwysterau newydd yn gymhleth ac yn sylweddol gyda nifer o risgiau cysylltiedig â chyflawni'r gwaith yn llwyddiannus.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Cafwyd heriau pellach o ran gweithredu lleoliadau gwaith ac asesiadau, o ganlyniad uniongyrchol i Covid.</p>	Cymedrol	Cymedrol

Teitl y risg	Cynhenid	Mawrth 2021
<p>Os bydd Llywodraeth Cymru yn dileu neu'n lleihau'r cyllid yn sylweddol ar gyfer prentisiaethau lefel 2, yna bydd yn lleihau'r cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni cymwysterau yn y sector. Bydd hyn yn cael effaith ar y gallu i ddarparu dysgu a thrwy hynny gynyddu lefelau cymwysterau'r gweithlu.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyhoeddus ar gyfer cymwysterau lefel 2 drwy brentisiaethau, y polisi o hyd yw dileu hyn, ond yn dilyn trafodaethau parhaus cafwyd peth sicrwydd y bydd yn parhau, tan etholiadau nesaf y Senedd yn 2021. Mae'r gweithlu'r sector gofal a blynyddoedd cynnar wedi gweld nifer uchel yn manteisio ar brentisiaethau yng Nghymru, gyda thua 2500 o ddysgwyr yn cwblhau ar lefel 2 yn 2017-18.</p> <p>Fel rhan o'r broses o gofrestru'r gweithlu gofal cartref, bydd unigolion angen cymhwyster Lefel 2 wrth ail-gofrestru, ond gall cyllid cyhoeddus i gefnogi'r cyflawniad hwn fod yn anoddach i gael gafael arno.</p> <p>Gall maint cynyddol ac felly costau cynyddol cymwysterau lefel 2 newydd a lanswyd ym mis Medi 2019 ychwanegu at y risg hon gan fod yr un swm o arian ar gael ond bydd yn rhaid iddo fynd ymhellach.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym yn parhau i gydweithio â chydweithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer prentisiaethau gofal cymdeithasol.</p>	Uchel	Cymedrol
<p>Os nad oes gennym gadarnhad parhaus o ddyraniadau cyllideb presennol i fodloni'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan raglen waith tymor y Llywodraeth bresennol a thymor y Llywodraeth nesaf, yna ni fyddwn yn gallu cyflawni ein cylch gorchwyl yn y dyfodol gan gynnwys cyfrifoldebau statudol a meysydd blaenoriaeth y Llywodraeth (fel strategaeth y gweithlu, llesiant y gweithlu, cael cydbwysed rhwng hawliau a chyfrifoldebau a'r strategaeth ddata).</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym wedi bod yn cydweithio â thîm nawdd Llywodraeth Cymru ar ein scenarios ariannol yn y dyfodol, yn dilyn asesiad annibynnol o'n cynllun strategol a'r lefelau gofynnol o adnoddau.</p>	Uchel	Uchel
<p>Os nad ydym yn rheoli blaenoriaethau cystadleuol Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau bod unrhyw waith newydd o fewn ein cwmpas a'n pwrpas yna gallem or-ymrwymo ein hadnoddau i gyflawni, gan ymestyn ein cylch gwaith y tu hwnt i'n cwmpas a cholli'n hunaniaeth a'n pwrpas unigryw.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Fe wnaethom adolygu ein blaenoriaethau er mwyn rhoi gwell cymorth i'r sector yn ystod Covid, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru.</p>	Uchel	Cymedrol



Teitl y risg	Cynhenid	Mawrth 2021
<p>Os nad ydym yn adnewyddu a diwygio'n prosesau rheoleiddio bydd yr adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol yn tanseilio sefydlogrwydd y sefydliad ac yn tanseilio gwaith ar draws ein hamcanion, yn ogystal â cholli'r cyfle i gysylltu rheoleiddio a gwella'n agosach. Os nad yw'r sector a pholisi Llywodraeth Cymru'n cefnogi ein newidiadau gallem gael trafferth wrth geisio cyflawni newid effeithiol a gallai ansefydlogi'r sector.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym wedi comisiynu arbenigwyr annibynnol i adolygu'n feirniadol ein prosesau rheoleiddio, er mwyn llywio gwelliannau parhaus. Bydd argymhellion y gwaith hwn yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'n busnes yn 2021-22</p>	Uchel	Cymedrol
<p>Os nad ydym yn parhau i ddilyn 'Cymru Iachach' a chynnal cysylltiadau allweddol â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol (AaGIC, lechyd Cyhoeddus Cymru ac ati) gall hyn effeithio ar flaenoriaethau cyflawnadwy allweddol gan olygu na fydd gofal cymdeithasol wedi'i gydbwyso o'r newydd o fewn uchelgais 'Cymru Iachach' ac y byddwn yn colli hyder os nad ydym yn cyflawni yn erbyn disgwyliadau.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Lansiodd y Strategaeth Gweithlu ar y Cyd gan Weinidogion ym mis Hydref 2020, a chytunwyd ar gynllun weithredu ar gyfer y gaeaf ym mis Rhagfyr 2020.</p>	Uchel	Cymedrol
<p>Os na allwn ailbenodi aelodau o'n Bwrdd a wasanaethodd hefyd fel Aelodau o'r Cyngor Gofal yna byddwn yn colli 3 Aelod profiadol a gwybodus allweddol ym mis Ebrill 2021. Ni fyddwn yn gallu llenwi'r swyddi gwag hyn yn amserol. Bydd gennym fwch ar adeg pan mae angen sefydlogrwydd, dilyniant ac arweinyddiaeth gref arnom ar lefel y Bwrdd i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar wrth ymateb i bandemig Covid.</p> <p>Oherwydd y newid yn y cyngor ar amodau penodi aelodau'r Cyngor a'r ffaith nad yw hyd eu gwasanaeth yn cael ei ailosod fel aelodau newydd o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru mae posibilrwydd y gall tymor 3 o'n 15 Aelod Bwrdd fod yn gorffen ar 31 Mawrth 2021.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Ailbenodwyd 12 aelod Bwrdd am dymhorau cyfnodol o flwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Os nad ydym yn glir ynghylch yr oblygiadau ar ddiwedd y cyfnod pontio wrth i ni ymadael â'r UE (Brexit) ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar, yna ni fyddwn mewn sefyllfa i ddarparu cymorth ychwanegol ac arweiniad clir i'r sector yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Gyda'r newidiadau i'r rheolau mudo, cadwyni cyflenwi cyfarpar i'r sector a rheoliadau rhannu data ledled y DU a'r UE (a'r UDA) yna gellir gweld goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r sector mewn perthynas â recriwtio, cyfarpar a chyflenwadau.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym yn parhau mewn cysylltiad â chynghorwyr Llywodraeth Cymru er mwyn monitro a deall y canlyniadau i Gymru. Rydym yn mynd ati i hyrwyddo'r Cynllun Statws Preswlydd Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ymhlith darparwyr gofal yng Nghymru. Rydym yn hyderus nad yw ein prosesau rheoleiddio wedi'u heffeithio mewn unrhyw ffordd sylweddol.</p>	Cymedrol	Cymedrol

Teitl y risg	Cynhenid	Mawrth 2021
<p>Os nad ydym yn ymateb yn briodol i'r pandemig Covid, yna ni fyddwn yn cefnogi'r sector gofal cymdeithasol wrth ei helpu i ddarparu gofal a chymorth rheng flaen yn ystod y pandemig.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym wedi diwygio ein cynllun busnes er mwyn ymateb yn uniongyrchol i anghenion y sector, ac rydym wedi sicrhau cymeradwyaeth y bwrdd i ddull ystwyth o ddarparu.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Os nad ydym yn dangos sut rydym yn cefnogi iechyd a llesiant y sector gofal cymdeithasol a'r sector blynyddoedd cynnar, yna bydd effaith ar gynaliadwyedd y gweithlu.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym wedi sefydlu rhwydwaith lechyd a Llesiant ac wedi comisiynu Cynllun Cymorth i Weithwyr.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Os nad ydym yn cefnogi ein gweithlu ein hunain (Gofal Cymdeithasol Cymru) yn ystod y cyfnod hwn, yna ni fyddwn yn sefydliad effeithiol ac effeithlon sy'n sicrhau bod iechyd a llesiant staff yn ganolog i'n ffordd o weithio.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym wedi sefydlu Grŵp Dilyniant Busnes er mwyn helpu pobl i weithio gartref, gan ddefnyddio technoleg rithwir. Rydym wedi datblygu grŵp lechyd a Llesiant gydag adnoddau ychwanegol i gefnogi pobl.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Mae gweithio o bell wedi cynyddu'r risg o seiber dwyll, hacio a sgamio, gan wneud ein rhwydwaith TG yn agored i niwed ac yn creu cyfleoedd ar gyfer twyll.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Mae cyngor a hyfforddiant y llywodraeth er mwyn lleihau seiber dwyll wedi'i roi ar waith. Mae systemau TG wedi'u cryfhau.</p>	Cymedrol	Cymedrol
<p>Gallai Llywodraeth Cymru oedi ymestyn y gofrestr, a fyddai'n effeithio ar yr incwm a geir yn ystod 2021-22.</p> <p><b>Diweddariad:</b> Rydym yn trafod â swyddogion yn gyson er mwyn deall bwriadau'r Gweinidog. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cael barn y Llywodraeth cyn y cyfnod cyn yr etholaeth.</p> <p>Rydym yn ystyried yr effaith ar ein tybiaethau o ran cynllunio busnes a byddwn yn cydweithio â swyddogion er mwyn cytuno ar unrhyw newidiadau o ran darparu, unwaith rydym yn gwybod beth fydd cynnwys y llythyr cylch gorchwyl a'r ymrwymadau o ran cyllid.</p>	Uchel	Uchel

Caiff risgiau gweithredol eu mesur yn unol ag argymhellion Llyfr Oren Trysorlys EM a chaiff y gofrestr o'r risgiau hyn ei hadolygu'n fisol gan yr uwch reolwyr.

## Llywodraethu gwybodaeth a diogelwch

Fel rheolwr data cofrestredig gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rydym yn sicrhau bod gennym fesurau rheoli llywodraethu gwybodaeth ar waith i gadw'r data a gasglwn ac a broseswn yn ddiogel ac yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol ac rydym yn agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau.

Yn ystod 2020-21:

- Cofnodwyd 23 o ddigwyddiadau data: roedd 3 yn gamgymeriadau gan drydydd parti, 5 yn broblemau gyda meddalwedd neu weinydd, roedd 2 yn sbam neu'n ymosodiadau seiber a'r 13 arall yn deillio o wall dynol neu broblem hyfforddiant neu ymwybyddiaeth staff. Gan edrych ymlaen, byddwn yn dadansoddi'r elfen 'gwall dynol' ymhellach ac yn pennu a oedd unrhyw ffactorau ychwanegol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt fel sefydliad, er enghraifft gweithio o bell neu gynnydd mewn llwyth gwaith.
- Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) am 5 o'r achosion uchod, ond er nad oedd angen i'r SCG gymryd camau pellach, gwnaethom argymhellion ar gyfer gwella ymarfer er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o achos tebyg.
- Ymatebwyd i 13 cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, i gyd o fewn 20 diwrnod gwaith. Roedd hyn yn gynnydd bach ers y llynedd (11 cais).
- Derbyniwyd 8 Cais am fynediad at ddata gan y testun o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, i gyd wedi'u cyflawni o fewn y cyfnod 30 diwrnod a oedd yn gynnydd o 3 ers y flwyddyn flaenorol.
- Yn dilyn adolygiad dadansoddi'r blwch mewn diogelu data a gynhaliwyd y llynedd, rydym wedi ymgorffori nifer o brosesau er mwyn cefnogi ein fframwaith llywodraethu gwybodaeth a'n cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data gan gynnwys cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data fel rhan o'n gwaith rheoli prosiectau a'n gweithdrefnau caffael er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu cynllunio gan ystyried diogelwch data. Cynhaliwyd ymarfer mapio data hefyd ac aethom ati'n rheolaidd i ddiweddarau ein hysbysiadau preifatrwydd er mwyn sicrhau ein bod yn dryloyw gyda'n cwsmeriaid ar y data rydym yn ei brosesu a pham.
- Ym mis Ionawr 2021, cynhaliwyd ein harchwiliad tair blynedd ar ein hardystiad ISO 27001 yng Nghaerdydd gyda 5 achos sylweddol a 5 achos llai o ddiffyg cydymffurfio'n dod i'r amlwg. Yn dilyn yr archwiliad hwn, aethom i'r afael â'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd. Ers hynny, rydym wedi rhoi sianeli sicrwydd ychwanegol a chilir ar waith yn y sefydliad - o graffu ar wybodaeth am ardystio yn y Pwyllgor Archwilio a Risg i grŵp llywodraethu mewnol yn sefydlu perchnogaeth dros lywodraethu gwybodaeth a diogelwch ar draws y sefydliad - er mwyn parhau i gryfhau ein dull llywodraethu gwybodaeth a'n hardystiad ar gyfer y safon.

## Gwasanaeth cwsmeriaid

Ein nod yw darparu'r profiad gorau posibl i'n cwsmeriaid, ond rydym yn ymwybodol y gallwn ddysgu o adborth bob amser. Yn ystod 2020-21 derbyniwyd 5 cwyn ffurfiol dan ein polisi cwynion. O'r rhain, roedd dwy yn deillio o rwystredigaeth gyda phenderfyniadau deddfwriaethol neu benderfyniadau ar bolisiau cenedlaethol, roedd dwy yn ymwneud â staff nad oedd yn dilyn gweithdrefnau cywir ac aethpwyd i'r afael â hynny ac roedd un yn gamgymeriad gan yr achwynwr. Ym mhob achos, roedd y cwynion yn amlygu cyfleoedd i ni fel sefydliad profi ein cyfraniadau at benderfyniadau, ein

gweithdrefnau gweinyddol a'n dulliau cyfathrebu er mwyn dysgu o'r gwasanaethau a ddarparwn a'u gwella.

Defnyddiwyd data cwynion mewn perthynas â 'datrys cwynion yn gyflym', fel adborth ar borth ar-lein Gofal Cymdeithasol Cymru a'n hatgyfeiriadau addaswydd i ymarfer, wrth gwmpasu prosiectau ar gyfer gwella ein gwasanaethau digidol ac adolygu ein gweithdrefnau Addaswydd i Ymarfer.

## Chwythu'r chwiban

### Mewnol

Mae'r holl staff Gofal Cymdeithasol Cymru'n cael eu hannog i godi materion o bryder am unrhyw gamwedd y daethant ar ei draws yn y gwaith. Rwy'n ystyried bod nodi'r camweddau hyn yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg corfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Rydym wedi sefydlu polisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ac yn nodi mecanwaith i staff ar gyfer codi materion o'r fath.

Yn 2020-21 ni wnaeth unrhyw aelod staff fynegi pryder dan ein Polisi Chwythu'r Chwiban fel yn 2019-20.

### Allanol

Rhestrir Gofal Cymdeithasol Cymru o dan Orchymyn Personau Rhagnodedig 2014 fel sefydliad dynodedig y gall unrhyw weithiwr yn y sector gofal cymdeithasol fynd ato i adrodd am gamweddau honedig neu hysbys. Mae hyn yn cael ei alw'n 'chwythu'r chwiban' neu'n wneud datgeliad hefyd.

Fel person rhagnodedig, mae gennym nifer o ddyletswyddau, sydd wedi'u hamlinellu mewn canllawiau gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), ac un ohonynt yw adrodd yn flynyddol ar nifer y datgeliadau chwythu'r chwiban a dderbyniwn.

Gyda phob atgyfeiriad a dderbyniwn, rydym yn ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd ac yn achos y 4 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn nid oedd 3 yn cydymffurfio â'r diffiniad o chwythu'r chwiban o dan y rheoliadau. Mae 1 gŵyn yn parhau ac yn perthyn i'r categori chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, os nad ydym yn cael digon o wybodaeth i agor achos, ac os yw'r unigolyn yn cytuno i hynny, rydym yn rhannu unrhyw dystiolaeth ag asiantaethau eraill ac yn cofnodi unrhyw gamau gweithredu a gymerir. Mae'r wybodaeth yn aros yn ein system rheoli achosion ac os bydd mwy o dystiolaeth yn dod i'r fei yn ddiweddarach bydd y tîm Addaswydd i Ymarfer yn gwneud asesiad ynghylch agor achos.

### Sue Evans

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2021

# Adroddiad ar gyflogau a staff

## Adroddiad ar gyflogau

### Datganiad ar bolisi cyflogau

Hwn yw datganiad polisi cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Mae'r datganiad polisi cyflogau hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau a phenderfyniadau ar uwch gyflogau.

### Prif Swyddog Gweithredol

Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yw Sue Evans a dderbyniodd gyflog o £118,478 y flwyddyn yn 2020-21. Cost cyflog gros y Prif Weithredwr yn y cyfnod 2020-21 oedd £168,685 sy'n cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr a chostau Pensiwn y Cyflogwyr.

### Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cynnwys 15 o Aelodau Bwrdd yn cael eu harwain gan Gadeirydd Lleyg Mick Giannasi. Penodwyd pob un ohonynt gan y Gweinidog, drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Nid yw tâl aelodau'r Bwrdd yn cynnwys pensiwn ac fe'i penderfynir gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn gwella tryloywder, datgelir cyflog Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn yr adroddiad hwn. Caiff aelodau'r Bwrdd dâl o £282 y dydd ac maent wedi ymrwymo i ddau ddiwrnod y mis.

### Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Caiff yr holl aelodau staff eu cyflogi gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cyflogau'r holl aelodau staff yn unol â chynllun y sefydliad ar gyfer cyflogau staff a threfniadau graddio a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004, ac mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod o staff.

Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys graddfa gyflog gyda dilyniant cyflog cynyddol yn ystod blynyddoedd cynnar cyflogaeth, a dyfarniad anghyfunol yn seiliedig ar berfformiad y sefydliad. Rhoddwyd y gorau i dalu'r Dyfarniad Perfformiad Corfforaethol yn 2010-11 ac nid oes bonws wedi'i dalu ers 2009-10.

Mae'r dyfarniad tâl yn amodol ar drafodaeth â Chyngor y Staff a chymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyflogau Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru yn flynyddol. Wrth benderfynu ar strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl alluog, gymwys ac addas o galibr uchel
- fforddiadwyedd cyffredinol
- arferion talu yn y sector cyhoeddus a sefydliadau cymharol
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol yn cynnwys gofynion cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu.

Mae'r adrannau canlynol yn yr Adroddiad ar Gyflogau a Staff yn destun archwiliad.

## Cydnabyddiaeth uwch staff

Swyddogion	Cyflog (£'000)*		Buddion pensiwn (£)		Cyfanswm (£'000)	
	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20	2020-21	2019-20
<b>Cadeirydd</b> Arwel Ellis-Owen (hyd at 31 Gorffennaf 2019)	Amh	10-15	Amh	Amh	Amh	10-15
<b>Cadeirydd</b> Mick Giannasi (o 1 Awst 2019)	30-35	20-25	Amh	Amh	30-35	20-25
<b>Prif Weitherdwr</b> Sue Evans	115-120	115-120	36,900	32,500	155-160	145-150
<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth</b> Joanne Oak (hyd at 1 Mai 2020)	5-10	75-80	(1,400)	22,600	5-10	95-100
<b>Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol</b> Andrew Lycett (o 2 Tachwedd 2020)	25-30	Amh	9,400	Amh	35-40	Amh
<b>Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu</b> Sarah McCarty	75-80	75-80	26,300	21,100	100-105	95-100

\*Yn gynwysedig mewn costau cyflog lle bo'n gymwys y mae unrhyw lwfansau teithio a chynhaliadaeth drethadwy yn unol â'n cynllun teithio a chynhaliadaeth.

\*\* Heb ei gynnwys yn y tabl uchod y mae cydnabyddiaeth uwch staff ar gyfer y Cyfarwyddwr Rheoleiddio gan ei fod ar secondiad i'r swydd

Ni ddatgelir cydnabyddiaeth uwch David Pritchard, y Cyfarwyddwr Rheoleiddio, uchod gan ei fod ar secondiad o Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm gan Lywodraeth Cymru oedd £126,030 (2019:2020 £116,475 ar gyfer y cyfnod 29 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020) a oedd yn cynnwys Yswiriant Gwladol Cyflogwyr, Pensiwn Cyflogwyr a TAW nad oedd modd ei hadennill. Mae graddfeydd cyflog Gofal Cymdeithasol Cymru yn berthnasol i'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio sydd ar secondiad ac mae ei gyflog yn y band cyflog £75,000-£80,000 (2019:20 £75,000- £80,000)

Caiff swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at y cyfanswm ffigur sengl ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan ein hactiwariad.

Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan lawer o ffactorau e.e. newidiadau yng nghyflog unigolyn, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog neu beidio a ffactorau prisiant eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros a dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Ni dderbyniodd unrhyw aelodau staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau unrhyw fuddion mewn nwyddau neu wasanaethau gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni weithredir cynllun ar gyfer darparu cerbydau modur i staff nac aelodau.

Hawliau pensiwn Cyfarwyddwyr	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2021 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar 31 Mawrth 2021 £'000	Cyfanswm y cyfrandaliad cronedig ar 31 Mawrth 2021 £'000	Cynnydd/ (gostyngiad) gwirioneddol mewn cyfrandaliad ar 31 Mawrth 2021 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2021 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2020 £'000	Cynnydd / gostyngiad gwirioneddol mewn CETV yn 2020-21 £'000
<b>Cadeirydd</b> Mick Giannasi	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
<b>Prif Weithredwr</b> Sue Evans	20-25	2.5-5.0	-	-	437	378	58
<b>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth</b> Joanne Oak (hyd at 1 Mai 2020)	15-20	0-2.5	-	-	206	199	6
<b>Cyfarwyddwr Cyllid, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol</b> Andrew Lycett (o 2 Tachwedd 2020)	0-5	0-2.5	-	-	8	Amh	8
<b>Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu</b> Sarah McCarty	20-25	0-2.5	15-20	0-2.5	259	234	24

\*Nid yw hawliadau pensiwn y Cyfarwyddwr Rheoleiddio presennol wedi'u cynnwys gan ei fod ar secondiad i'r swydd.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn Gofal Cymdeithasol Cymru. Nid yw'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn y cynllun pensiwn.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun yw'r buddion y pennwyd eu gwerth. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle bo aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn y maent wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun, nid dim ond ar gyfer ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi. Mae'r ffigurau CETV a manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i'r aelod yn prynu blynyddoedd ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV yn ôl canllawiau a'r fframwaith sydd wedi'u gosod gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid.

Mae'r cynnydd gwirionedd yn yng ngwerth y CETV yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei arianni i bob diben gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai, gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

### Datgeliad Cyflog Teg

Cyflog canolrifol	2020-21	2019-20
Cyfanswm cyflog gweithiwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (£'000)	115-120	115-120
Cyfanswm cyflogau canolrif	£34,555	£31,562
Cymhareb	3.4	3.7
Amrediad cyfanswm cyflogau	£20,780-£118,478	£20,272-£115,143

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad.

£115,000-£120,000 oedd cyflog band y cyfarwyddwr a oedd yn ennill y cyflog mwyaf yn Gofal Cymdeithasol Cymru ym mlwyddyn ariannol 2020-21 (2019-20: £115,000-£120,000). Roedd hyn 3.4 gwaith (2019-20: 3.7 gwaith) yn uwch na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £34,551 (2019-20: £31,562).

Cost y cyflog yn unig yw cyfanswm y cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd y cyflog yn amrywio o £20,780 i £118,478 (2019-20: £20,727 to £115,143).



## Adroddiad staff

Costau staff	2020-21					2019-20
	Cyfanswm costau	Staff cyflogedig parhaol	Staff dros dro a secondeion	Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd	Aelodau panel	Cyfanswm costau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau a thâl	4,956	4,517	162	129	148	4,499
Costau nawdd cymdeithasol	462	458	-	3	1	425
Costau pensiwn eraill	1,409	1,409	-	-	-	1,592
Ardoll prentisiaethau	9	9	-	-	-	7
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>6,836</b>	<b>6,393</b>	<b>162</b>	<b>132</b>	<b>149</b>	<b>6,523</b>
Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(50)	(50)	-	-	-	(19)
<b>Cyfanswm costau net</b>	<b>6,786</b>	<b>6,343</b>	<b>162</b>	<b>132</b>	<b>149</b>	<b>6,504</b>

Yn unol ag arweiniad, mae costau cyflogaeth yn cynnwys taliadau a wnaed mewn perthynas â staff contract. Cyfanswm cost cyflogau heb gynnwys Costau pensiwn eraill oedd £5,377,000 (£6,786,000-£1,409,000) yn 2020-21 o'i gymharu â £4,912,000 (£6,504,000-£1,592,000) yn 2019-20.

Costau pensiwn eraill gwerth cyfanswm o £1,409,000 yw costau gwasanaeth (presennol a blaenorol) y cynllun ac, yn ogystal, unrhyw gostau pensiwn mewn perthynas â'r cynnydd yn y cronïad gwyliau. Mae'r £1,409,000 yn cynnwys cyfraniadau cyflogwr yn seiliedig ar gyflogres o £1,268,000, taliadau diffyg fel cyfandaliad o £113,000 a chostau mewn perthynas â'r cronïad tâl gwyliau o £18,000. Y gwahaniaeth gweddilliol o £10,000 (£310,000 yn 2019-20) yw'r tâl uwch sy'n ofynnol i gynyddu'r cyfraniadau gwirioneddol sy'n cael eu talu gyda'r gost gwasanaeth y mae'n ofynnol ei chodi o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS 26). Mae'r tâl uwch yn 2020-21 yn ymwneud â £10,000 mewn taliadau gwasanaeth presennol. Yn 2019-20, roedd y £1,592,000 yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr, sef £1,282,000, ond cynyddodd £310,000 fel y nodir uchod.

Niferoedd staff - cyfwerth ag amser llawn	2020-21			Ailddatganwyd 2019-20
	Cyfanswm	Nifer Parhaol	Nifer Arall	Cyfanswm
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr	4	3	1	4
Rheoleiddio'r gweithlu	53	53	0	50
Gwella a datblygu	34	33	1	32
Gwasanaethau corfforaethol a TG	33	33	0	33
<b>Cyfanswm</b>	<b>124</b>	<b>122</b>	<b>2</b>	<b>119</b>

Mae'r tabl uchod yn dynodi nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae ffigurau'r blynyddoedd blaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu newidiadau mewn perthynas â sut y caiff ein timau Ariannu Myfyrwyr, Tîm Carreg a Data eu dosbarthu.

## Cyfansoddiad staff

Ar 31 Mawrth 2021, o'r gweithlu o 137, roedd 101 (74%) yn fenywod a 36 (26%) yn ddynion. O'i gymharu â hynny, ar 31 Mawrth 2020, o'r gweithlu o 129, roedd 94 (73%) yn fenywod a 35 (27%) yn ddynion.

Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr. O'r Uwch Dîm Rheoli, roedd dau yn fenywod (50%) a dau yn ddynion (50%); mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2020, pan oedd tair menyw (75%) ac un dyn (25%).

Mae cyfansoddiad staff yn ôl teuluoedd swyddi fel a ganlyn:-

Cyfansoddiad staff yn ôl teuluoedd swyddi	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	Benyw	Gwryw
Tîm Gweithredol	2	2	4	50%	50%
Uwch dîm arwain	4	3	7	57%	43%
Tîm rheoli	21	11	32	66%	34%
Tîm technegol a datblygu	32	12	44	73%	27%
Tîm cymorth	42	8	50	84%	16%
<b>Cyfansymiau</b>	<b>101</b>	<b>36</b>	<b>137</b>	<b>74%</b>	<b>26%</b>

## Data absenoldeb salwch

Lefel salwch staff yn ystod 2020-21 oedd 2.38% (2019-20: 3.74%) sy'n seiliedig ar 722 diwrnod a gollwyd allan o 30,286 diwrnod.

## Polisiau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru statws 'Buddsoddwyr mewn Pobl' ac mae ei bolisiau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn sicrhau bod ein holl arferion cyflogaeth a'n rhaglenni gwaith yn ymgorffori ac yn dangos nid yn unig ein dyletswydd gyhoeddus fel y'i pennwyd gan y Ddeddf Cydraddoldebau, ond yn croesawu cydraddoldeb ac amrywiaeth fel gwerthoedd craidd sy'n sail i'n holl swyddogaethau a chyflwyno gwasanaethau ansawdd uchel ein gweithlu a'r sector. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgorffori dull hawliau dynol yn llawn yn ein holl waith. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, drwy ei gylch gwaith, yn hyrwyddo ac yn dylanwadu ar bwysigrwydd dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth a sensitifrwydd iaith yn y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae gennym rôl arwain wrth gyflawni Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru - y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Fel

cyflogwr, rydym yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog yn darparu amgylchedd sy'n annog ac yn datblygu staff i ddysgu a gwella'u sgiliau dwyieithog a chymryd perchnogaeth o ethos dwyieithog y sefydliad.

Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gynnal y confensiynau sydd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, ein staff a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â nhw yn ein gwaith, ac rydym yn cefnogi'n llwyr hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb a gweithredu agored yn ein trefniadau cyflogau a graddio. Pan ystyriwyd ein hadroddiad Cyflog cyfartal ym mis Medi 2020, ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu ar sail cyflog mewn perthynas ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig. Gwnaethom ystyried ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau hefyd a oedd, yn seiliedig ar ein staff ar 31 Mawrth 20, yn 23.52% (canolrif). Mae hyn wedi cynyddu ers i ni ei ystyried yn ôl yn 2018-19 (15.58%) ac, ar hyn o bryd, mae'n uwch na chyfartaledd y DU. Esbonnir hyn gan orgynrychiolaeth menywod yn y graddau cyflog is.

## Llais y gweithwyr

Yn ystod 2020-21, roedd gan ein Cyngor Partneriaeth Staff rôl hanfodol yn casglu a chyflwyno barn staff ar faterion pwysig yn cynnwys ad-drefnu a pholisïau allweddol. Cyflawnwyd hyn drwy fforymau staff rheolaidd, cyfarfod â thimau'n unigol a chynhyrchu dogfennau adborth i'r Tîm Adnoddau Dynol a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

## Cymorth a llesiant

Mae ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP) yn cael ei darparu gan Care First fel rhan o Fframwaith Iechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Fel rhan o'r fframwaith hwn, rydym yn gallu defnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- Mynediad at wasanaeth cwnsela dros y ffôn 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i'n holl staff
- Cwnsela wyneb yn wyneb
- Adnoddau ar-lein

Darperir ystadegau EAP ar gyfer y flwyddyn galendr (Ionawr 2020 – Rhagfyr 2020). Mae'r ffigurau'n dangos y canlynol:

Gwnaed 17 o alwadau i linell ffôn EAP, gydag 11 o'r rhain wedi'u gwneud rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr.

Aeth 9 o bobl ychwanegol ati i ddefnyddio gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein.

O'r 17 o alwadau, roedd naw o'r rhain yn gysylltiadau newydd (pobl nad oeddent wedi defnyddio EAP o'r blaen).

Roedd y materion a gyflwynwyd yn gymysgedd o faterion personol (14) a materion cysylltiedig â gwaith (9). Cafodd tri eu categoreiddio fel 'arbenigwr gwybodaeth', lle mae unigolion wedi cysylltu â'r gwasanaeth i gael gafael ar wybodaeth am bwnc penodol.

Yn 2021-22, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwasanaeth drwy amrywiaeth o fforymau a dulliau cyfathrebu.

## Hyblygrwydd a buddion

- Mae 19% o'n gweithlu yn gweithio'n rhan-amser (llai na 36 awr yr wythnos).
- Mae'r cynllun talebau gofal plant wedi cau i ymgeiswyr newydd erbyn hyn, gyda dau aelod gweithredol ar 31 Mawrth 2021.

## Gwariant ar ymgynghori

Mae unrhyw gostau ymgynghori mewn perthynas â barn arbenigol a gafwyd i helpu i wneud penderfyniadau busnes wedi'u cynnwys yn y costau Gweinyddu (Ffioedd Proffesiynol) yn y datganiadau ariannol. Yn 2020-21, roedd y costau ymgynghori hyn yn £28,000 (2019-20: £34,000).

## Ymrwymadau oddi ar y gyflogres

Yn 2020-21, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithredu yn unol â llythyr Annwyl Swyddog Cyfrifyddu 1/14 mewn perthynas â Threfniadau Treth y Rhai a Benodwyd o'r Sector Cyhoeddus ac nid yw'n ofynnol adrodd am unrhyw ymrwymadau "oddi ar y gyflogres".

## Pecynnau ymadael

Cytunwyd ar un pecyn ymadael yn 2020-21, ac roedd cost y pecyn yn yr amrediad £25,000-£50,000 ac mae wedi'i gynnwys yn y Costau Cyflog yn natganiadau ariannol 2020-21. Roedd hyn yn ymwneud â mater staffio a nodwyd y dilynwyd y broses briodol ar ei gyfer a chymryd camau i liniaru risgiau ariannol ac enw da Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Atebolrwydd ac archwilio

### Rheoleidd-dra gwariant

Ymdriniwyd â'r holl wariant yn 2020-21 yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, y Datganiad Llywodraethu a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

### Ffioedd a thaliadau

Yr incwm o Ffioedd Cofrestru ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 oedd £1,155,000 (2019-20: £978,000). Fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru, nid yw'r ffioedd a dderbynnir yn talu cost lawn cofrestru ac felly mae'r gost ychwanegol yn cael ei hariannu gan Gymorth Grant.

Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol (Gweddnewid Gofal yn yr 21ain Ganrif) ar reoleiddio'r gweithlu gofal a chymorth, cynyddwyd lefelau ffioedd o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Nid fydd y ffi uwch yn cwmpasu holl gost cofrestru a bydd y gost ychwanegol yn parhau i gael ei hariannu gan Gymorth Grant.

### Rhwymedigaethau Digwyddiadol Annhebygol iawn

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol annhebygol iawn.

### Tueddiadau gwariant hirdymor

Gyda chofrestriad grwpiau newydd bydd cynnydd graddol mewn gwariant. Bydd yr incwm i ariannu'r gwariant uwch hwn yn cael ei ariannu o'r ffioedd uwch ac ychwanegol gan unigolion cofrestredig a bydd angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

#### **Sue Evans**

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu  
Dyddiad: 21 Gorffennaf 2021

# Y Dystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o wariant net cynhwysfawr, y Datganiad ar y sefyllfa ariannol, y Datganiad ar lifoedd arian parod, y Datganiad ar newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Gofal Cymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## **Gwybodaeth arall**

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall ei bod yn ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## **Adroddiad ar ofynion eraill**

### **Barn ar faterion eraill**

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad ar gyflogau, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi paratoi adroddiad o'r fath ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Chanllawiau Trysorlys EM.

### **Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn cysylltiad â'r materion canlynol yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad ar gyflogau yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae paragraff 16 o Ran 6 o Atodlen 2 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni ystyrir ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfansymiau, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i beryglon twyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial twyll yn y meysydd



canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a rhagfarn wrth gyfrifo amcangyfrifon cyfrifyddu.

- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Gofal Cymdeithasol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob tîm archwilio ac yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Gofal Cymdeithasol Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
 22 Gorffennaf 2021

24 Heol y Gadeirlan  
 Caerdydd  
 CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Gofal Cymdeithasol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan ar y dechrau.

## Datganiadau ariannol

Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	Nodyn	2020-21 £'000	2019-20 £'000
<b>Gwariant</b>			
Costau staff	14	6,786	6,504
Gwariant ar raglenni			
Cymorth hyfforddiant a grantiau eraill	4(i)	11,240	11,238
Gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau	4(ii)	2,400	1,901
Costau gweinyddol	5	1,177	1,385
Dibrisiant ac amorteiddiad	1(ix)	191	209
Tâl llog pensiwn	15	30	-
		21,824	21,237
<b>Incwm</b>			
Incwm o weithgareddau			
Incwm ffioedd cofrestru	1(iii)	1,155	978
Incwm arall			
Ardystio prentisiaethau	1(iv)	73	132
Cymraeg gwaith		-	156
Gweithlu iechyd meddwl		24	-
Incwm amrywiol		6	11
Credyd llog pensiwn	15	-	30
		1,258	1,307
Gwariant net		20,566	19,930
Llog derbyniadwy	3(i)	1	4
Llog i'w ildio i Lywodraeth Cymru	3(ii)	(1)	(4)
Gwariant net ar ôl llog		<b>20,566</b>	<b>19,930</b>
<b>Gwariant cynhwysfawr arall</b>			
Ailfesuriad actiwaraid	15	340	2,180
<b>Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021</b>		<b>20,906</b>	<b>22,110</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 75 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021	2021			2020
	Nodyn	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau anghyfredol:</b>				
Eiddo, peiriannau ac offer	6	276		215
Asedau anniriaethol	7	322		349
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>			598	564
<b>Asedau cyfredol:</b>				
Masnach a symiau eraill derbyniadwy	9	665		629
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	10	368		248
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			1,033	877
<b>Cyfanswm asedau</b>			<b>1,631</b>	<b>1,441</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>				
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	11	(474)		(525)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau Cyfredol</b>			(474)	(525)
<b>Cyfanswm asedau llai</b>				
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			<b>1,157</b>	<b>916</b>
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>				
<b>Rhwymedigaethau pensiwn</b>	15	(2,350)		(1,970)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>			(2,350)	(1,970)
<b>Asedau llai rhwymedigaethau</b>			<b>(1,193)</b>	<b>(1,054)</b>
<b>Cronfeydd</b>				
Cronfa gyffredinol			1,157	916
Cronfa bensiwn			(2,350)	(1,970)
<b>Cyfanswm</b>			<b>(1,193)</b>	<b>(1,054)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 75 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 50 i 51 gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ar 15 Gorffennaf 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

### Sue Evans

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu  
Dyddiad: 21 Gorffennaf 2021

<b>Datganiad ar lifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>Nodyn</b>	<b>2020-21 £'000</b>	<b>2019-20 £'000</b>
<b>Lifau arian parod o weithgareddau gweithredu</b>			
Gwariant net ar ôl llog		(20,566)	(19,930)
Addasiad ar gyfer dibrisiant ac amorteiddiad		191	209
Addasiad ar gyfer costau cyllido pensiwn (net)		40	280
(Cynnydd) mewn masnach a symiau eraill derbyniadwy		(36)	(278)
(Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill		(51)	33
<b>(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(20,422)</b>	<b>(19,686)</b>
<b>Lifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	6	(108)	(62)
Prynu asedau anniriaethol	7	(117)	(104)
		<b>(225)</b>	<b>(166)</b>
<b>Lifoedd arian parod o weithgareddau cyllido</b>			
Cyllid Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cyfalaf)		20,767	19,805
<b>Cyllido net</b>		<b>20,767</b>	<b>19,805</b>
<b>Cynnydd/(Lleihad) net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod</b>			
		<b>120</b>	<b>(47)</b>
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	10	<b>248</b>	<b>295</b>
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	10	<b>368</b>	<b>248</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 75 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

<b>Datganiad ar newidiadau yn ecwiti trethdalwyr</b> ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	<b>Cronfa Bensiwn</b> £'000	<b>Cronfa Gyffredinol</b> £'000	<b>Cyfanswm</b> £'000
<b>Balans ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>490</b>	<b>761</b>	<b>1,251</b>
<b>Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2019-20</b>			
Cyllid Llywodraeth Cymru	-	19,805	19,805
Trosglwyddo rhwng cronfeydd - Cyfalaf	(2,460)	2,460	-
Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	-	(22,110)	(22,110)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>(1,970)</b>	<b>916</b>	<b>(1,054)</b>
<b>Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2020-21</b>			
Cyllid Llywodraeth Cymru	-	20,767	20,767
Trosglwyddo rhwng cronfeydd - Cyfalaf	(380)	380	-
Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	-	(20,906)	20,906
<b>Balans ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>(2,350)</b>	<b>1,157</b>	<b>(1,193)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 54 i 75 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

## Datganiad o bolisiau cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2020-21 a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae'r polisiau cyfrifyddu yn y Llawlyfr yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau Gofal Cymdeithasol Cymru at ddiben rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1(i) Confensiwn cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi. Fe'u paratowyd o dan y confensiwn cost hanesyddol diwygiedig.

### 1(ii) Cyllido

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu hystyried yn gyllido ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### 1(iii) Incwm ffioedd cofrestru

Mae hwn yn deillio o'r ffioedd a godir ar gyfer cofrestru ar y Gofrestr Gofal Cymdeithasol. Ar gyfer cofrestru ar y Gofrestr yn unig y mae'r ffi hon, ac ni ystyrir ei bod yn ffi am wasanaeth parhaus. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 18 Cydnabod Refeniw (IAS18), cydnabyddir refeniw adeg y cofrestru.

### 1(iv) Incwm ardystio prentisiaethau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn derbyn incwm ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth, argraffu a phostio tystysgrifau Prentisiaeth fel rhan o'i waith ar gyfer yr Awdurdod Ardystio Prentisiaethau. Mae'r refeniw sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod dros amser yn unol â chwblhau darparu'r gwasanaethau. Yn ogystal, gan fod yr holl risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau yn nwylo Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'r incwm yn cael ei gyfrif ar sail gros yn unol ag IAS 18 ac yn cydnabod unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn ar wahân.

## 1(v) Cefnogi hyfforddiant a grantiau eraill

Yn ystod 2020-21, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud taliadau o dan y **Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol** sy'n gynllun cymhelliant i hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gysiau hyfforddi gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys taliadau i fyfyrwyr o fwrsariaeth nas asesir ar sail incwm ac elfen ychwanegol a asesir ar sail incwm ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig.

Yn ychwanegol, telir **Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer** i bob myfyriwr hefyd. Cydnabyddir yr holl elfennau hyn o wariant fel rhwymedigaeth pan fydd yr hawliadau grant perthnasol yn cael eu derbyn. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith, unwaith i'r grant gael ei gymeradwyo, na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi'r gost hon, oherwydd ar ôl i gymhwysedd gael ei brofi, nid oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant sydd o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

Darperir **Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer (PLOF)** i Awdurdodau Lleol fel cyfraniad tuag at y gost o sicrhau Cyfleodd Dysgu Ymarfer i fyfyrwyr sy'n dilyn cysiau Gwaith Cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru. Mae'r grant yn cael ei gyfrif fel rhwymedigaeth a bydd y gwariant yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr os bydd y cais yn llwyddiannus. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith na all Gofal Cymdeithasol Cymru osgoi talu'r rhwymedigaeth hon ac nad oes unrhyw amodau mewn perthynas â'r grant a fyddai'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

Gwneir taliadau mewn perthynas â'r cynllun **Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP)** lle mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ariannu 100 o lefydd bob blwyddyn i weithwyr cymdeithasol cymwys. Codir pob cost i'r Datganiad o wariant net cynhwysfawr yn unol â thaliadau cytundebol a wnaed i Brifysgol Caerdydd. Mae hyn yn unol â IAS37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol) gan y dylai gwerth blynyddol contractau gael ei gydnabod fel rhwymedigaeth unwaith i'r cwrs Prifysgol gychwyn gan fod Prifysgol Caerdydd wedi cyflawni ei helpen hi o'r contract ar y pwynt hwnnw.

Ers 1 Ebrill 2017, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gyfrifol am weinyddu grant **Rhaglen Ddatblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWD)**. Darperir y grant i gefnogi Awdurdodau Lleol i hyfforddi a datblygu eu staff eu hunain. Mae cyllid sydd ar gael gan Gofal Cymdeithasol Cymru drwy SCWWD yn 2020-21 yn darparu 70% o gost y rhaglen, sef £7,135,740 ar hyn o bryd. Bydd y 30% arall yn cael ei ariannu gan Awdurdodau Lleol. Yr amod sy'n gysylltiedig â'r grant yw bod rhaid iddo gael ei wario ar wariant cymwys a'i wario o fewn y flwyddyn ariannol. Felly, cydnabyddir y rhwymedigaeth ar gyfer y grant unwaith i'r llythyr cynnig grant gael ei ddarparu. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y costau cymwys sy'n codi.

Mae grantiau eraill yn cynnwys:

- Grantiau Hwyluso Rhanbarthol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Statudol,
- Grantiau Pobl sy'n Defnyddio Gwasanaethau a Gofalwyr i Sefydliadau Addysg Uwch a
- Grant Ymchwil i'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE).

Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y grantiau hyn yn cael eu cydnabod unwaith i'r grant gael ei hawlio gan nad oes unrhyw amodau ar hyn o bryd sy'n dal i fod o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfyngu ar y swm sy'n daladwy.

## **1(vi) Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill – Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol**

Yn ystod 2020-21, gwnaeth nifer fach o fyfyrwyr ddirwyn eu hyfforddiant i ben yn gynnar, gan beri ad-dalu rhan o'r dyfarniad neu'r cwbl ohono. £59,000 oedd cyfanswm yr ad-daliad a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2021 (£45,000: 31 Mawrth 2020) ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn nodyn 9. Polisi Gofal Cymdeithasol Cymru yw ceisio ad-daliad llawn o'r cyllid hwn.

## **1(vii) Eiddo, peiriannau ac offer**

Mae eiddo, peiriannau ac offer ag iddynt werth unigol neu grŵp o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae eiddo, peiriannau ac offer wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2021, oherwydd ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisió'n berthnasol.

## **1(viii) Asedau anniriaethol**

Mae pryniannau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau ag iddynt werth unigol o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae costau Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2021, oherwydd ym marn Gofal Cymdeithasol Cymru, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisió'n berthnasol.

## **1(ix) Dibrisiant ac amorteiddiad**

Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost hanesyddol pob ased ar sail linol dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased fel yr amlinellir isod, ac eithrio adnewyddu swyddfeydd, lle caiff costau eu dileu dros y cyfnod sy'n weddill o'r prydles swyddfa pan gânt eu prynu.

- Offer Cyfathrebu – pum mlynedd;
- Dodrefn – deng mlynedd;
- TG. (Eiddo, offer a pheiriannau) - pedair blynedd;
- Costau llety - y cyfnod sy'n weddill o brydlesi llety pan gânt eu prynu
- Technoleg Gwybodaeth a Thrwyddedau (Astedau Anniriaethol) - pedair blynedd

Cyfrifir dibrisiant ac amorteiddiad yn fisol ac mae'n dechrau yn y mis ar ôl y mis prynu. O'r herwydd, ni fydd pryniannau a wnaed ym mis Mawrth 2021 yn dechrau dibrisio/amorteiddio tan flwyddyn ariannol 2021-22. Yr eithriad i'r rheol hon yw costau adnewyddu adeiladau lle cyfrifir y tâl dibrisiant ar sail ddyddiol.

## **1(x) Prydlesi**

Dosberthir prydlesi fel prydlesi cyllid pan fydd holl risgiau a holl wobrwyon perchnogaeth wedi'u trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall yn brydles weithredu.

Caiff gwariant ar brydlesi eiddo ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Mae rhenti prydlesi gweithredu offer yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros dymor y brydles.



Nid yw IFRS 16 a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 ac a oedd yn dod i rym i'r rhan fwyaf o gwmnïau o Ionawr 2019 wedi'i fabwysiadu gan y FReM eto. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw brydles â thymor prydles o fwy na 12 mis yn cael eu cydnabod fel asedau a rhwymedigaethau mewn datganiadau ariannol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei fabwysiadu o fewn y FReM o 2022-23 ymlaen.

### **1(xi) Treth ar Werth**

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW). Caiff pob gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf, ei adrodd gan gynnwys TAW, lle bo'n berthnasol, gan na ellir adfer unrhyw TAW.

### **1(xii) Costau pensiwn**

Mae gweithwyr a chyn-weithwyr yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun a ariennir gan gyflogwyr lluosog. Darperir mwy o wybodaeth yn nodyn 15 ar y Cyfrifon hyn lle caiff y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariad eu hamlinellu.

Datgelwyd Costau Pensiwn yn unol ag IAS 19 Buddiannau Cyflogeion. Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol yn ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

### **1(xiii) Darpariaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol**

#### ***Darpariaethau***

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy.

#### ***Rhwymedigaethau digwyddiadol***

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau posibl yn deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae'r canlyniad yn seiliedig ar ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol. Gwneir datgeliad lle nad yw rhwymedigaeth gyfredol yn debygol neu lle na ellir ei mesur yn ddibynadwy.

#### ***Asedau digwyddiadol***

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datgelu ased posibl pan fo'r canlyniad yn seiliedig ar un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 2. Dadansoddiad o wariant net yn ôl segment

Mae Cyfrif y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y mae canlyniadau gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Gweithredol er mwyn gallu asesu perfformiad yn ôl y segmentau hyn. O ganlyniad, ni roddir unrhyw ddadansoddiad pellach o Wariant Net yn ôl Segment.

3. Cyllid Llywodraeth Cymru	2020-21 £'000	2019-20 £'000
Cymorth grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru	20,767	19,805
<b>Swm a gredydwyd i'r gronfa gyffredinol</b>	<b>20,767</b>	<b>19,805</b>

Fel yr amlinellir yn Nodyn 1(ii), mae cyfanswm y grantiau o £20,767,000 (2019-20:£19,805,000) yn cael eu credydu i'r gronfa gyffredinol erbyn hyn ar ôl eu derbyn.

3(i) Incwm na ellir ei gadw	2020-21 £'000	2019-20 £'000
Llog ar y cyfrif cadw	1	4
<b>Cyfanswm incwm na ellir ei gadw</b>	<b>1</b>	<b>4</b>

3(ii) Cysoni arian parod a gafwyd o incwm na ellir ei gadw â symiau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru	2020-21 £'000	2019-20 £'000
Arian parod a dderbyniwyd (incwm yn fwy na throthwy Llywodraeth Cymru)	1	4
Cyfanswm incwm ad-daladwy	1	4
Ad-daliad arian parod	1	4
<b>Yn ddyledus i Lywodraeth</b>	<b>-</b>	<b>-</b>

Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru rwymedigaeth i ad-dalu llog Llywodraeth Cymru a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'r incwm ffioedd sydd uwchlaw'r targed, sef £1,180,000. Talwyd y llog o £1,000 a dderbyniwyd i Lywodraeth Cymru. £1,155,000 oedd cyfanswm yr incwm ffioedd a gafwyd yn y flwyddyn mewn termau arian parod (2019-20:£978,000).

## 4. Costau rhaglenni

<b>4(i) Cymorth hyfforddiant a grantiau eraill</b>	<b>2020-21 £'000</b>	<b>2019-20 £'000</b>
Taliadau'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol	2,102	2,162
Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer	990	1,142
Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr mewn hyfforddiant gwaith cymdeithasol	66	57
Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus	-	50
Rhaglen Ddatblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru	7,149	7,149
	<b>10,307</b>	<b>10,560</b>
<b>Grantiau eraill</b>		
Grantiau i'r rhanbarthau	810	555
Ymchwil – Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth	123	123
	<b>11,240</b>	<b>11,238</b>

<b>4(ii) Gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau</b>	<b>2020-21 £'000</b>	<b>2019-20 £'000 wedi'u hailddatgan</b>
Gwella a datblygu	1,544	1,027
Cymraeg Gwaith	-	132
Rheoleiddio'r gweithlu, gan gynnwys rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol	856	742
	<b>2,400</b>	<b>1,901</b>

Mae ffigurau'r blynyddoedd blaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu bod yr holl gostau data wedi'u cynnwys yn Gwella a Datblygu bellach ac nid yn Rheoleiddio'r Gweithlu. Ffigurau'r blynyddoedd blaenorol cyn ailddatgan oedd Gwella a Datblygu (£807,000) a Rheoleiddio'r Gweithlu (£962,000).

5. Costau gweinyddol	2020-21 £'000	2019-20 £'000 wedi'u hailddatgan
Treuliau'r Cadeirydd, aelodau a staff	3	113
Costau eraill y Cadeirydd, aelodau a staff	131	128
Rhent o dan brydlesi gweithredu - llety	273	265
Costau safleoedd eraill	283	312
Gweithdai, seminarau, hyrwyddiadau, cyhoeddiadau	83	114
Offer a meddalwedd	199	240
Rhent o dan brydlesi gweithredu - llungopiwy'r a pheiriannau ffrancio	23	23
Gweinyddu	52	56
Archwiliad allanol - gwaith archwilio	21	21
Ffioedd proffesiynol eraill	109	113
	<b>1,177</b>	<b>1,385</b>

Mae ffigurau'r blynyddoedd blaenorol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r ffaith bod costau teithio a chynhaliadau ar gyfer aelodau a staff yn cael eu cynnwys bellach yng nghostau'r Cadeirydd, aelodau a staff. Yn flaenorol, roedd y costau hyn yn cynnwys costau hyfforddi aelodau, costau teithio a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd sy'n cael eu cynnwys bellach yng nghostau eraill y Cadeirydd, aelodau a staff. Ffigurau'r blynyddoedd blaenorol cyn ailddatgan oedd treuliau'r Cadeirydd, aelodau a staff (£121,000) a chostau eraill y Cadeirydd, aelodau a staff (£120,000).

6. Eiddo, peiriannau ac offer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	Adnewyddu adeiladau £'000	Celfi a ffitiadau £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Cyfansymiau £'000
<b>Cost</b>					
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>591</b>	<b>143</b>	<b>660</b>	<b>-</b>	<b>1,394</b>
Ychwanegiadau yn y cyfnod			108	-	108
Gwarediadau yn y cyfnod				-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>591</b>	<b>143</b>	<b>768</b>	<b>-</b>	<b>1,502</b>
<b>Dibrisiant</b>					
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>453</b>	<b>140</b>	<b>586</b>	<b>-</b>	<b>1,179</b>
Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn	16	1	30	-	47
Gwarediadau yn y cyfnod				-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>469</b>	<b>141</b>	<b>616</b>	<b>-</b>	<b>1,226</b>
<b>Gwerth llyfr net</b>					
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>122</b>	<b>2</b>	<b>152</b>	<b>-</b>	<b>276</b>
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>138</b>	<b>3</b>	<b>74</b>	<b>-</b>	<b>215</b>

y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020	Adnewyddu adeiladau £'000	Celfi a ffitiadau £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Cyfansymiau £'000
<b>Cost</b>					
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>418</b>	<b>143</b>	<b>639</b>	<b>155</b>	<b>1,355</b>
Ychwanegiadau yn y cyfnod	18	-	44	-	62
Trosglwyddo o Asedau sy'n cael eu hadeiladu	155	-	-	(155)	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	(23)	-	(23)
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>591</b>	<b>143</b>	<b>660</b>	<b>-</b>	<b>1,394</b>
<b>Dibrisiant</b>					
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>414</b>	<b>139</b>	<b>578</b>	<b>-</b>	<b>1,131</b>
Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn	39	1	31	-	71
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	(23)	-	(23)
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>453</b>	<b>140</b>	<b>586</b>	<b>-</b>	<b>1,179</b>
<b>Gwerth llyfr net</b>					
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>138</b>	<b>3</b>	<b>74</b>	<b>-</b>	<b>215</b>
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>4</b>	<b>4</b>	<b>61</b>	<b>155</b>	<b>224</b>

<b>7. Asedau anniriaethol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>Technoleg gwybodaeth £'000</b>	<b>Trwyddedau £'000</b>	<b>Cyfansymiau £'000</b>
<b>Cost</b>			
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>1,498</b>	<b>133</b>	<b>1,631</b>
Ychwanegiadau yn y cyfnod	117	-	117
Trosglwyddo o ddatblygiad	-	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>1,615</b>	<b>133</b>	<b>1,748</b>
<b>Amorteiddiad</b>			
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>1,197</b>	<b>85</b>	<b>1,282</b>
Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn	131	13	144
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>1,328</b>	<b>98</b>	<b>1,426</b>
<b>Gwerth llyfr net</b>			
<b>Ar 31 Mawrth 2021</b>	<b>287</b>	<b>35</b>	<b>322</b>
<b>Ar 1 Ebrill 2020</b>	<b>301</b>	<b>48</b>	<b>349</b>

<b>y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>Technoleg gwybodaeth £'000</b>	<b>Trwyddedau £'000</b>	<b>Cyfansymiau £'000</b>
<b>Cost</b>			
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>1,436</b>	<b>91</b>	<b>1,527</b>
Ychwanegiadau yn y cyfnod	62	42	104
Trosglwyddo o ddatblygiad	-	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>1,498</b>	<b>133</b>	<b>1,631</b>
<b>Amorteiddiad</b>			
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>1,067</b>	<b>77</b>	<b>1,144</b>
Codwyd tâl yn ystod y flwyddyn	130	8	138
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>1,197</b>	<b>85</b>	<b>1,282</b>
<b>Gwerth llyfr net</b>			
<b>Ar 31 Mawrth 2020</b>	<b>301</b>	<b>48</b>	<b>349</b>
<b>Ar 1 Ebrill 2019</b>	<b>369</b>	<b>14</b>	<b>383</b>

## 8. Offerynnau ariannol

Gan y bodlonir gofynion ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru gan Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru yn bennaf, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli Gofal Cymdeithasol Cymru nag a fyddai'n gymwys i gorff nad yw'n perthyn i'r sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â phryniant disgwylidig a gofynion defnyddio Gofal Cymdeithasol Cymru, ac nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru felly yn agored i lawer o risg credyd, risg hylifedd neu risg y farchnad.

9. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill ar 31 Mawrth	2021 £'000	2020 £'000
<b>Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn</b>		
Symiau masnach sy'n dderbyniadwy		
Llywodraeth Cymru	11	1
Awdurdodau Lleol	2	-
Dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol	59	45
Cyrff eraill	94	152
Symiau derbyniadwy eraill		
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	499	431
	<b>665</b>	<b>629</b>

Mae dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn ad-daladwy dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gyda myfyrwyr yn cytuno ar gontractau ad-dalu ac yn llofnodi contractau sy'n ystyried eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, at ddibenion datgelu, mae'r holl weddillion wedi cael eu cynnwys yn ddyledus cyn pen un flwyddyn ariannol.

10. Arian parod a chyfwerth ag arian parod	2020-21 £'000	2019-20 £'000
Balans ar 1 Ebrill	248	295
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	120	(47)
Balans ar 31 Mawrth	<b>368</b>	<b>248</b>

Roedd y balansau ar 1 Ebrill 2019, 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 yn cael eu cadw mewn Banciau Masnachol.

11. Symiau masnachol sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill ar 31 Mawrth	2021 £'000	2020 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Symiau masnach sy'n daladwy		
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	-	-
Symiau taladwy eraill		
Croniadau ac incwm gohiriedig	474	525
	<b>474</b>	<b>525</b>

## 12. Ymrwymïadau cyfalaf

Roedd ymrwymïadau cyfalaf wedi'u contractio o £10,000 ar 31 Mawrth 2021 nad oeddent wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn (£10,000 ar 31 Mawrth 2020).

13. Ymrwymïadau o dan brydlesi gweithredu ar 31 Mawrth	2021 £'000	2020 £'000
<b>Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:</b>		
Tir ac adeiladau		
Dim hwyrach na blwyddyn	273	278
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	1,092	1,113
Hwyrach na phum mlynedd	787	1,080
	<b>2,152</b>	<b>2,471</b>
Arall		
Dim hwyrach na blwyddyn	22	22
Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	20
Hwyrach na phum mlynedd	-	-
	<b>22</b>	<b>42</b>



<b>14. Costau staff</b>	<b>2020-21 Cyfanswm costau £'000</b>	<b>2019-20 Cyfanswm costau £'000</b>
Cyflogau a thâl	4,956	4,499
Costau Nawdd Cymdeithasol	462	425
Costau Pensiwn eraill	1,409	1,592
Ardoll Prentisiaethau	9	7
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>6,836</b>	<b>6,523</b>
Llai adenillion o ran secondiadau allanol	(50)	(19)
<b>Cyfanswm costau net</b>	<b>6,786</b>	<b>6,504</b>

## 15. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

### (i) Staff presennol a phensiynwyr

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn a ariennir gan gyflogwyr lluosog sy'n darparu buddiannau ar oedran ymddeol arferol o 65. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Gofal Cymdeithasol Cymru ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd cyfran Gofal Cymdeithasol Cymru o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ei nodi ar wahân am y tro cyntaf yn y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2004.

### 15(ii) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun â buddion wedi'u diffinio

Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) ac nid yw'n destun gofynion pensiwn gofynnol Deddf Pensiynau 1995. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997 (rheoliad 77) yn pennu bod rhaid cyflawni prisiadau actiwaraidd ar 31 Mawrth 1998, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac fe'u darparwyd gan actiwari'r cynllun, sef Aon Hewitt Limited, Llundain.

### 15(iii) Canlyniadau o dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 (Datgeliad)

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau a ariennir yng Nghynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y "Gronfa") sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun budd diffiniedig a ariennir gyda'r buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael eu cysylltu â'r cyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar gynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u hailbriso. Mae manylion y buddion a enillwyd dros y cyfnod a gwmpesir gan y datgeliad hwn wedi'u hamlinellu yn ' Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ' (fel y'i diwygiwyd) a ' Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 ' (fel y'i diwygiwyd).

## Trefniadau ariannu/Llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fel Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a ariennir mae'n ofynnol bod y Cyflogwr a'i gyflogeion yn talu cyfraniadau i mewn i'r Gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriadwyd i fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn gyda'r asedau buddsoddi. Mae gwybodaeth am y fframwaith ar gyfer cyfrifo cyfraniadau i'w talu allan wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Datganiad Strategaeth Ariannu'r Gronfa. Roedd y prisiad actiwaraid diwethaf ar 31 Mawrth 2019 ac mae'r cyfraniadau sydd i'w talu hyd at 31 Mawrth 2023 yn deillio o'r prisiad hwnnw wedi'u hamlinellu yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Gronfa. Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa.

### Asedau

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod enillion a cholledion yn llawn, ar unwaith drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Yn unol â Safon Gyfrifyddu Ryngwladol rhif 19 - Buddiannau Cyflogeion (IAS 19), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol ynghylch asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

Mae'r asedau a ddyrannwyd i'r Cyflogwr yn y Gronfa yn rhai tybiannol a rhagdybir bod yr asedau wedi'u buddsoddi yn unol â buddsoddiadau'r Gronfa at ddibenion cyfrifo'r adennill sydd i'w gymhwyso i'r asedau tybiannol hyn dros y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r Gronfa yn fawr ac mae cyfran sylweddol o'i hasedau yn fuddsoddiadau hylif. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gyfyngiad sylweddol ar realeiddio asedau os oes angen gwneud taliad mawr o'r Gronfa mewn perthynas â rhwymedigaethau cyflogwr. Mae'r asedau wedi'u buddsoddi mewn rhychwant amrywiol o fuddsoddiadau a dangosir rhaniad bras yr asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (ar sail data a gyflenwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu) yn y datgeliadau wedi'u rhannu yn ôl buddsoddiadau dyfynedig ac annyfynedig. Gall yr Awdurdod Gweinyddu fuddsoddi cyfran fach o fuddsoddiadau'r Gronfa yn asedau rhai o'r cyflogwyr sy'n cyfranogi yn y Gronfa os yw'n rhan o'u strategaeth fuddsoddi gytbwys.

## Risgiau yn gysylltiedig â'r Gronfa mewn perthynas â chyfrifyddu

### Cyfnewidioldeb asedau

Caiff y rhwymedigaethau a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt a osodwyd gan gyfeirio at arenillion bondiau corfforaethol ar y dyddiad cyfrifyddu. Os yw asedau'n tanberfformio, bydd hyn yn creu diffyg yn y cyfrifon. Mae'r Gronfa yn dal cyfran sylweddol o asedau twf sydd, er y disgwylir iddynt berfformio'n well na bondiau corfforaethol yn y tymor hir, yn creu cyfnewidioldeb a risg yn y tymor byr mewn perthynas â ffigurau cyfrifyddu.

### Newidiadau mewn arenillion bondiau

Bydd gostyngiad mewn arenillion bondiau corfforaethol yn cynyddu'r gwerth a bennir ar y rhwymedigaethau at ddibenion cyfrifyddu, er bydd hyn yn cael ei wrthbwysu fymryn gan y cynnydd yn yr asedau o ganlyniad i hynny (i'r graddau y mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn bondiau Corfforaethol).

### Risg chwyddiant

Mae mwyafrif y rhwymedigaethau pensiwn yn gysylltiedig naill ai â chyflogau neu chwyddiant prisiau. Bydd disgwyliadau chwyddiant uwch yn arwain at werth atebolrwydd uwch. Nid oes cysylltiad perffaith rhwng yr asedau a chwyddiant, sy'n golygu y bydd cynnydd mewn chwyddiant yn cynyddu'r diffyg.

## Disgwyliad oes

Mae mwyafrif rhwymedigaethau'r Gronfa i ddarparu buddion dros oes yr aelod ar ôl ymddeol, felly bydd cynnydd mewn disgwyliad oes yn arwain at gynnydd yn y rhwymedigaethau.

## Cyflogwyr sy'n ymadael

Gall fod rhaid i gyflogwyr sy'n gadael y Gronfa (neu eu gwarantwr) wneud taliad ymadael i dalu unrhyw ddiffyg mewn asedau yn erbyn eu rhwymedigaethau pensiwn. Os nad yw'r cyflogwr (neu warantwr) yn gallu talu'r taliad ymadael hwn, gall y rhwymedigaeth mewn rhai amgylchiadau ddisgyn ar gyflogwyr eraill yn y Gronfa. Ymhellach, efallai na fydd yr asedau adeg ymadael mewn perthynas â 'rhwymedigaethau amddifad', o edrych yn ôl, yn ddigonol i dalu'r rhwymedigaethau. Gall y risg hon ddisgyn ar gyflogwyr eraill. Ar hyn o bryd, mae 'rhwymedigaethau amddifad' yn gyfran fach o'r rhwymedigaethau cyffredinol yn y Gronfa.

## Nodiadau eraill

### Dyfarniad McCloud

Canfu dyfarniad 'McCloud' yn y Llys Apêl fod y trefniadau amddiffyn wrth bontio a gyflwynwyd pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr yn gwahaniaethu ar sail oedran. Ar 27 Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys ganiatâd i'r Llywodraeth apelio yn erbyn y dyfarniad hwn, ac ar 15 Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad yn dweud y byddent yn disgwyl digolledu aelodau ar draws holl gynlluniau'r sector cyhoeddus a oedd yn cynnwys trefniadau amddiffyn wrth bontio (sy'n cynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

Cyhoeddodd y Gweinidog Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ei ymgynghoriad McCloud ar gyfer yr LGPS (yng Nghymru a Lloegr) ar 16 Gorffennaf 2020, yn nodi newidiadau arfaethedig gyda'r nod o ddileu'r gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran yn yr LGPS. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 8 Hydref 2020 ac rydym yn disgwyl yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym wedi caniatáu ar gyfer effaith dyfarniad McCloud yn y ffigurau hyn, ac mae'r dull a ddefnyddir yn cyd-fynd yn agos â'r dull a gynigiwyd gan MCHLG yn ei ymgynghoriad. Dyma'r un dull â'r llynedd pan adroddwyd am yr atebolrwydd am y tro cyntaf gan ddefnyddio dull cyflwyno yn seiliedig ar ganlyniadau'r llynedd.

### Rheoli costau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Drysorlys EM a Bwrdd Cyngori'r Cynllun gynnal prisiau o dro i dro i fonitro cost y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a fforddiadwy. Gelwir hyn yn 'Broses Rheoli Costau'.

Mae Trysorlys EM a Bwrdd Cyngori'r Cynllun wedi oedi eu hadolygiadau yn dilyn dyfarniad 'McCloud' yn y Llys Apêl. Mae'r rhain wedi ailgychwyn bellach a disgwylir i Gyfarwyddiadau Trysorlys EM gael eu gwneud yn ystod 2021 a fydd yn caniatáu i adolygiadau'r Trysorlys a Bwrdd Cyngori'r Cynllun fynd rhagddynt. Mae'n annhebygol y bydd canlyniad yr adolygiadau hyn yn hysbys yn 2021 ac ni ddisgwylir unrhyw newidiadau mewn buddion na chyfraniadau aelodau tan 2024. Felly, ni ddarparwyd ar gyfer y Broses Rheoli Costau yn y ffigurau hyn.

### Cydraddoli a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)

Ar 26 Hydref 2018, yn achos Lloyds Bank dyfarnodd yr Uchel Lys bod angen cydraddoli ar gyfer effaith Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) anghyfartal. Cadarnhaodd y penderfyniad fod gan ymddiriedolwyr ddyletswydd i gydraddoli buddiannau i ddynion a menywod er mwyn newid y

canlyniad sy'n cael ei gynhyrchu mewn perthynas â GMP ar hyn o bryd.

Mae'r ffigurau'n darparu ar gyfer talu cynyddiadau pensiynau llawn ar GMPs i unigolion sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016. Mae'r cyfrifiadau'n ddull bras gan fod y Llywodraeth yn ymgynghori ar ei dull o ddigolledu aelodau yr effeithir arnynt. Er y gallai'r ateb terfynol sy'n deillio o'r ymgynghoriad fod yn wahanol i'r dull a ddefnyddir, rydym yn disgwyl y bydd y canlyniad yn cynnwys ymestyn mynegeio llawn ar gyfer llawer o aelodau nad ydynt wedi'u digolledu eto, felly rydym o'r farn bod y dull yn amcangyfrif rhesymol.

Ym mis Hydref 2020, eglurodd ail ddyfarniad yn achos banc Lloyds y byddai angen iawndal ar aelodau a drosglwyddodd fuddion allan ers mis Mai 1990. Nid yw'r Llywodraeth wedi cydnabod atebolrwydd eto nac wedi nodi dull o unioni hyn. Felly ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer unrhyw atebolrwydd posibl.

### Dyfarniad Goodwin

Ym mis Mehefin 2020, dyfarnodd Tribiwnlys Cyflogaeth, mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Athrawon, fod darpariaethau ar gyfer buddion goroeswr aelod benywaidd mewn priodas â rhywun o'r rhyw arall yn llai ffafriol nag ar gyfer menyw mewn priodas neu bartneriaeth sifil gyda rhywun o'r un rhyw, a bod y driniaeth yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Cyhoeddodd prif ysgrifennydd y Trysorlys mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 20 Gorffennaf 2020 ei fod yn credu y byddai angen newidiadau i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill gyda threfniadau tebyg. Nid yw'r newidiadau hyn wedi'u hadlewyrchu eto yn y rheoliadau LGPS, felly ni wnaed unrhyw lwfans yn y cyfrifiadau.

Amcangyfrifir mai £1.33 miliwn yw cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Dyddiad y prisiad actiwaraid llawn diwethaf o fuddiannau wedi'u hariannu LGPS Gofal Cymdeithasol Cymru oedd 31 Mawrth 2019 a hyd y rhwymedigaethau yw 26.3 o flynyddoedd.

Prif dybiaethau	31 Mawrth 2021 (% y flwyddyn)	31 Mawrth 2020 (% y flwyddyn)	31 Mawrth 2019 (% y flwyddyn)
Cyfradd ddisgownt	2.1	2.3	2.5
Chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr	2.6	1.8	2.1
Cynnydd mewn pensiwn	2.6	1.8	2.1
Cyfradd ailbrisió cyfrifon pensiwn	2.6	1.8	2.1
Cynnydd mewn cyflogau	3.9	3.1	3.4

### Tybiaeth marwoldeb

Mae'r tybiaethau marwoldeb wedi'u seilio ar brofiad marwoldeb gwirioneddol diweddar aelodau yn y Gronfa yn seiliedig ar ddadansoddiad a gynhaliwyd fel rhan o brisiad 2019, ac maent yn caniatáu ar gyfer gwelliannau disgwylidig o ran marwoldeb yn y dyfodol. Mae disgwyliadau oes enghreifftiol yn 65 oed yn deillio o'r tybiaethau marwoldeb hyn wedi'u dangos isod.

Disgwyliad oes tybiedig yn 65 oed	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2020
<b>Dynion</b>		
Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	21.8	21.7
Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	22.8	22.7
<b>Menywod</b>		
Aelod 65 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	24.1	24.0
Aelod 45 oed ar y dyddiad cyfrifyddu	25.6	25.5

Dyranriad asedau	Gwerth ar 31 Mawrth 2021			Gwerth ar 31 Mawrth 2020
	Dyfynedig	Annyfynedig	Cyfanswm	
Ecwitïau	72.5%	0.0%	72.5%	63.7%
Eiddo	6.3%	0.0%	6.3%	8.6%
Bondiau Llywodraeth	8.3%	0.0%	8.3%	13.8%
Bondiau Corfforaethol	12.3%	0.0%	12.3%	13.0%
Arian Parod	0.6%	0.0%	0.6%	0.9%
Arall	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Cysoni'r Statws a Ariennir i'r Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol	Gwerth ar 31 Mawrth 2021 (£M)	Gwerth ar 31 Mawrth 2020 (£M)
Gwerth teg yr asedau	30.65	21.71
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a ariennir	33.0	23.68
<b>Statws yn cael ei ariannu</b>	<b>(2.35)</b>	<b>(1.97)</b>
Ased heb ei gydnabod	0.00	0.00
<b>(Rhwymedigaeth) a gydnabyddir ar y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol</b>	<b>(2.35)</b>	<b>(1.97)</b>

Roedd rhaniad y rhwymedigaeth ddiffiniedig ar y dyddiad priso diwethaf rhwng y categorïau aelodau amrywiol fel a ganlyn:

Aelodau gweithredol	56%
Pensiynwyr gohiriedig	18%
Pensiynwyr	26%

<b>Symiau a gydnabyddir yn y gwariant net cynhwysfawr</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (£M)</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (£M)</b>
<b>Cost Gweithredu</b>		
Cost gwasanaeth presennol <sup>(1)</sup>	1.39	1.32
Cost gwasanaeth blaenorol (yn cynnwys cwtogiadau)	0.00	0.27
Cost setliad	0.00	0.00
<b>Cost ariannu</b>		
Llog ar rwymedigaeth/(ased) budd diffiniedig net	0.03	(0.03)
<b>Cost pensiwn a gydnabuwyd yn y gwariant net</b>	<b>1.42</b>	<b>1.56</b>
<b>Ailfesuriadau mewn gwariant cynhwysfawr arall</b>		
Adenillion ar asedau'r cynllun (uwchlaw) hynny a gydnabyddir mewn llog net	(7.05)	0.86
(Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newid mewn rhagdybiaethau ariannol	7.60	(0.60)
Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newid mewn rhagdybiaethau demograffig	-	(0.33)
(Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil profiad rhwymedigaethau	(0.21)	2.25
Addasiad mewn perthynas â pharagraff 64	0.00	0.00
<b>Cyfanswm a gydnabuwyd mewn gwariant cynhwysfawr arall</b>	<b>0.34</b>	<b>2.18</b>
<b>Cyfanswm a gydnabuwyd mewn cyfanswm gwariant cynhwysfawr</b>	<b>1.76</b>	<b>3.74</b>

(1) Lwfans ar gyfer treuliau gweinyddu wedi'i gynnwys yn y gost gwasanaeth presennol (£M)

0.02

0.02

<b>Newidiadau i werth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (£M)</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (£M)</b>
<b>Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig agoriadol</b>	<b>23.68</b>	<b>20.51</b>
Cost gwasanaeth presennol	1.39	1.32
Cost llog ar rhwymedigaeth budd diffiniedig	0.54	0.51
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.30	0.27
(Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	7.60	(0.60)
Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	-	(0.33)
(Enillion)/colledion actiwaraidd yn sgil profiad rhwymedigaethau	(0.21)	2.25
Buddion net a dalwyd	(0.30)	(0.52)
Cost gwasanaeth blaenorol (yn cynnwys cwtogiadau)	0.00	0.27
Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o warediadau/caffaeliadau	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
<b>Rhwymedigaeth derfynol buddiannau diffiniedig</b>	<b>33.0</b>	<b>23.68</b>

<b>Newidiadau i werth teg asedau yn ystod y flwyddyn</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (£M)</b>	<b>Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (£M)</b>
<b>Gwerth teg agoriadol yr asedau</b>	<b>21.71</b>	<b>21.00</b>
Incwm llog ar asedau	0.51	0.54
Ail-fesur enillion(colledion) ar asedau	7.05	(0.86)
Cyfraniadau gan y cyflogwr	1.38	1.28
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.30	0.27
Buddion net a dalwyd	(0.30)	(0.52)
Cynnydd net mewn asedau o warediadau a chaffaeliadau	0.00	0.00
Setliadau	0.00	0.00
<b>Gwerth teg terfynol yr asedau</b>	<b>30.65</b>	<b>21.71</b>

Adenillion gwirioneddol ar asedau	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (£M)	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 (£M)
Incwm llog ar asedau	0.51	0.54
Ail-fesur enillion / (colledion) ar asedau	7.05	(0.86)
<b>Adenillion gwirioneddol ar asedau</b>	<b>7.56</b>	<b>(0.32)</b>

### Amcangyfrif o gost pensiynau yn y dyfodol

#### Buddiannau a ariennir

Darparwn amcangyfrif o'r costau i wariant cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, ar sail y rhagdybiaethau a amlinellir uchod.

Dadansoddiad o'r swm a godir mewn gwariant cynhwysfawr arall ar ddarparu gwasanaethau y flwyddyn nesaf	Blwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 (£M)
Cost gwasanaeth presennol	2.14
Llog ar rwymedigaeth budd diffiniedig net	0.04
<b>Cyfanswm amcangyfrif cost pensiynau</b>	<b>2.18</b>
Lwfans ar gyfer treuliau gweinyddol sydd wedi'u cynnwys yn y Gost Gwasanaeth Presennol (£M)	0.02
Cyflogres bensiynadwy amcangyfrifedig dros y cyfnod (£M)	4.45

#### Dadansoddiad o Sensitifrwydd

Mae effaith fras newid y prif dybiaethau ar werth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig a ariennir ar 31 Mawrth 2021 a'r gost gwasanaeth amcanol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 i'w gweld isod.

Ym mhob achos, dim ond y dybiaeth a grybwyllir sydd wedi'i newid; mae'r holl dybiaethau eraill yn aros yr un fath â'r hyn a grynohir uchod.

Nid ydym wedi cynnwys sensitifrwydd buddiannau heb eu hariannu (lle bo'n berthnasol) ar sail perthnasedd.



## Buddiannau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Ariennir

<b>Tybiaeth cyfradd ddisgownt</b> Addasiad i'r gyfradd ddisgownt	<b>+0.1%</b> y flwyddyn	<b>Ffigur</b> sylfaenol	<b>-0.1%</b> y flwyddyn
Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M)	32.14	33.00	33.89
% newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth	(2.6%)	-	2.7%
Cost gwasanaeth ragamcanol (£M)	2.06	2.14	2.22
<b>Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol</b>	<b>(3.8%)</b>	-	<b>3.9%</b>

<b>Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau</b> Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn cyflogau	<b>+0.1%</b> y flwyddyn	<b>Ffigur</b> sylfaenol	<b>-0.1%</b> y flwyddyn
Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M)	33.13	33.00	32.87
% newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth	0.4%	-	(0.4%)
Cost gwasanaeth ragamcanol (£M)	2.14	2.14	2.14
Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol	0.0%	-	0.0%

<b>Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau a rhagdybiaeth pensiynau gohiriedig, a chyfradd ailbriso'r rhagdybiaeth cyfrifon pensiwn</b> Addasiad i'r gyfradd cynnydd mewn pensiynau	<b>+0.1%</b> y flwyddyn	<b>Ffigur</b> sylfaenol	<b>-0.1%</b> y flwyddyn
Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M)	33.76	33.00	32.27
% newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth	2.3%	-	(2.2%)
Cost gwasanaeth ragamcanol (£M)	2.22	2.14	2.06
Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol	3.9%	-	(3.8%)

<b>Tybiaeth marwoldeb ar ôl ymddeol*</b> Addasiad i dybiaeth y gyfradd oedran marwolaeth	<b>-1</b> flwyddyn	<b>Ffigur</b> sylfaenol	<b>+1</b> flwyddyn
Gwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth (£M)	34.19	33.00	31.85
% newid yng ngwerth presennol cyfanswm y rhwymedigaeth	3.6%	-	(3.5%)
Cost gwasanaeth ragamcanol (£M)	2.23	2.14	2.05
Amcan o % newid yng nghost gwasanaeth ragamcanol	4.1%	-	(4.0%)

\* Mae sgôr o +1 flwyddyn yn golygu y tybir bod aelodau'n dilyn patrwm marwolaethau'r tabl sylfaenol ar gyfer unigolyn sydd flwyddyn yn hŷn na nhw.

## 16. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Digwyddiadol a ddatgelwyd o dan IAS 37

Fe allai'r cytundebau prydles mewn perthynas â'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llanelwy ei gwneud yn ofynnol i unrhyw newidiadau, ychwanegiadau a pharwydydd gael eu symud oddi yno pan ddaw'r brydles i ben. Nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud gan fod y rhwymedigaeth hon yn ansicr ac mae'n amodol ar y landlord yn gofyn am eu symud.

## 17. Ased Digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2021, roedd £106,000 o ffioedd cofrestru'n ddyledus. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (Cymru) 2016, tybiwyd yn wreiddiol na allwn ond cael gwared ar unigolion cofrestredig am beidio talu ffioedd sy'n ddyledus adeg adnewyddu cofrestriad sy'n digwydd dair blynedd ar ôl y cofrestriad cychwynnol ac yna ar gylch tair blynedd. Ar sail y profiad a gafwyd hyd yma, dim ond ar y dyddiad adnewyddu hwn y gallwn brofi mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r ffioedd sydd heb eu talu a yw'r unigolyn cofrestredig heb dalu am ei fod wedi gadael y sector (ac na fyddwn yn mynd ar ôl y ffi ddyledus) neu a yw'n ddyled ddilys sy'n gysylltiedig ag unigolyn sy'n dal i fod yn gofrestrdig.

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, cytunwyd bod y Ddeddf yn caniatáu dileu dyledwyr cyn y dyddiad adnewyddu. Mae gwaith wedi dechrau i gael gwared ar ddyledwyr, ond nid ydym mewn sefyllfa o hyd i gadarnhau beth sy'n ddyled wirioneddol neu ddim.

Felly, ni chaiff y ffioedd cofrestru o £106,000 sy'n ddyledus eu trin fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr gan nad ydym yn siŵr o union werth economaidd y swm hwn oherwydd ar sail unigol ni fyddwn yn gwybod a fydd yr incwm yn cael ei wireddu hyd nes y cyrhaeddir dyddiad adnewyddu pob swm/symiau unigol sy'n ddyledus.

## 18. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael amrywiol drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Roedd y trafodion a'r balansau fel a ganlyn:-

	2020-21	2019-20
Incwm	£20.791m	£19.805m
Gwariant	£0.144m	£0.128m
Balans dyledwyr ar 31 Mawrth	£0.011m	£0.001m
Balans credydwyr ar 31 Mawrth	-	-

## Aelodau Bwrdd a Staff Gofal Cymdeithasol Cymru

Ni fu unrhyw weithwyr cyflogedig, gan gynnwys staff rheoli allweddol nac aelodau'r Bwrdd na'u partion cysylltiedig, yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod y flwyddyn, ar wahân i hawliadau treuliau arferol, taliadau cyflog ac ati. Mae gwybodaeth am staff rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

Fodd bynnag, er eglurder rydym yn datgelu trafodion perthnasol gyda sefydliadau lle'r oedd uwch staff neu aelodau neu unrhyw un o'u teuluoedd yn dal swyddi o ddylanwad yn ystod y flwyddyn.

Roedd ein Cadeirydd blaenorol yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru hefyd, ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Y trafodion gwariant gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd £1,040 yn 2019-20. Nid oedd unrhyw falansau dyledwyr na chredydwyr ar 31 Mawrth 2020.

Yn ogystal, roedd dau aelod o'n bwrdd yn aelodau o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn derbyn cyllid grant gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar ffurf Grant Hwyluso Rhanbarthol. Roedd y trafodion fel a ganlyn:-

Aelod o'r Bwrdd	Rôl	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Gwariant 2020-21 (£)	Gwariant 2019-20 (£)
Abigail Harris	Aelod	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro	73,036	73,036
Carl Cooper	Dirprwy Gadeirydd	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys	57,574	32,574

Noder fod y taliadau yn y tabl uchod wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol a enwebwyd sef Cyngor Dinas Caerdydd (Caerdydd a'r Fro) a Chyngor Sir Powys (Powys).

## 19. Asedau trydydd parti

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw unrhyw asedau trydydd parti lle mae'n gweithredu fel ceidwad neu fel ymddiriedolwr ynddynt.

## 20. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd, y mae'n rhaid addasu datganiadau blynyddol 31 Mawrth 2021 ar eu cyfer.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

